

# Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
[ceredigion.gov.uk](http://ceredigion.gov.uk)

Dydd Mawrth, 20 Medi 2022

Lisa Evans

## **Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Llun, 26 Medi 2022 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**
- 3. Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 4 2021/22 (Tudalennau 3 - 68)**
- 4. Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar Orffennaf 12fed 2022 ac Adroddiad Blynyddol Llesiant Lleol Ceredigion 2021-2022 (Tudalennau 69 - 102)**
- 5. Adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) (Tudalennau 103 - 112)**
- 6. Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2021/2022 (Tudalennau 113 - 180)**
- 7. Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft (Tudalennau 181 - 192)**
- 8. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cydlynu a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022 ac ystyried unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion hynny (Tudalennau 193 - 196)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Cydlynw Trosolwg a Chraffu  
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council****ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu**DYDDIAD:** 26 Medi 2022**LLEOLIAD:**  
**TEITL:** Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd  
**CYSUR/CWMPAS**  
**Chwarter 4 2021/22****PWRPAS YR ADRODDIAD:** Monitro gweithgarwch ar sail amlasiantaethol o ran y camau a gymerwyd i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion.**RHESWM Y MAE'R**  
**PWYLLGOR CRAFFU**  
**WEDI GOFYN AM Y**  
**WYBODAETH HON:** Sicrhau bod aelodau'n monitro cynnydd yng nghyfarfodydd rheoli chwarterol Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS**CEFNDIR:**

Amgaeir Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS ar gyfer Chwarter 4 2021-22.

Adroddiadau rheoli amlasiantaethol yw'r rhain ar ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2022. Darparant wybodaeth reoli ar y camau a gymerwyd o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae'r Adroddiadau yn cynnwys y wybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu llesiant plant ac oedolion yng Ngheredigion.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS (Ceredigion) yn trafod y wybodaeth reoli hon er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Mae'r cyfarfodydd amlasiantaethol hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar unrhyw faterion perfformiad a materion eraill o fewn y maes gwaith hwn.

Mae gwybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y Rhanbarth.

# Tudalen 4

## Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol:

- Yn Chwarter 4 bu cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau a arweiniodd at gymryd camau o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant, h.y. yn arwain at Drafodaethau Strategaeth/Cyfarfodydd Strategaeth, o 122 yn Chwarter 3 i 154 yn Chwarter 4.
- Yn gyffredinol bu cynnydd yn nifer y cysylltiadau/adroddiadau/atgyfeiriadau mewn perthynas â phlant yn y chwarter hwn, o 897 yn Chwarter 3 i 1010 yn Chwarter 4.
- O'r holl gysylltiadau/adroddiadau/atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn Chwarter 4, aeth 21.8% ymlaen i'r cam trafodaeth strategaeth o'i gymharu ag 14% yn Chwarter 3, aeth 6.49% ymlaen i ymholiad Adran 47 o'i gymharu â 5% yn Chwarter 3, ac aeth 0.99% ymlaen i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant o'i gymharu ag 1% yn Chwarter 3.
- Cyfanswm y plant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn yn dilyn Cynhadledd oedd 21.
- Cyfanswm y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr oedd 12.
- Cyfanswm yr ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y chwarter hwn oedd 65, gyda 64 o'r rheini wedi'u cynnal ar y cyd â'r Heddlu. Yn Chwarter 3 roedd 40 o ymholiadau Adran 47 a chwblhawyd 45 ohonynt ar y cyd a'r Heddlu.
- Y prif gategori o gam-drin a arweiniodd at ymholiad Adran 47 yn Chwarter 4 oedd cam-drin/camfanteisio'n rhywiol (29) ac yna cam-drin corfforol (22), o'i gymharu â Chwarter 3 lle mai cam-drin corfforol (22) oedd y prif gategori gyda cham-drin/camfanteisio'n rhywiol (12) yn ail.
- Y prif ffactorau risg ar gyfer y 45 o blant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31/3/2022 oedd cam-drin domestig (39), iechyd meddwl rhieni (30), troseddau treisgar oedolion (29), rhieni yn camddefnyddio sylweddau/camddefnyddio alcohol (27) a diffyg cydweithrediad rhieni â'r Cynllun Amddiffyn Plant (20).
- O ran Diogelu Oedolion, bu gostyngiad yn nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin a/neu eu hesgeuluso gyda 118 yn Chwarter 3 a 108 yn Chwarter 4, a'r adroddiadau gwirioneddol a dderbyniwyd oedd 137 yn Chwarter 4 a 139 yn Chwarter 3. Felly bu ychydig o ostyngiad yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd yn y chwarter hwn, ond roedd llawer llai o bobl a oedd yn destun ailgyfeiriadau.
- Y categori cam-drin yr adroddwyd amdano fwyaf yn ystod y chwarter hwn oedd cam-drin emosynol/seicolegol gyda 61 o adroddiadau o'i gymharu â 48 yn Chwarter 3. Cam-drin corfforol oedd y categori mwyaf yn Chwarter 3 (59) ond mae hyn wedi gostwng yn Chwarter 4 (48). Bu gostyngiad yn nifer yr adroddiadau o bryderon am esgeulustod (41) yn Chwarter 4 o'i gymharu â (52) yn Chwarter 3. Roedd nifer y adroddiadau o gam-drin rhywiol ac ariannol wedi parhau'n debyg.

## Tudalen 5

**LLESIANT  
CENEDLAETHAU'R  
DYFODOL:**

**A gwblhawyd Asesiad Effaith  
Integredig? Os naddo, esboniwch  
pam**

Naddo

***Crynodeb:***

Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir ar ddiogelu plant yng Ngheredigion.

**Hirdymor:** Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol

**Integreiddio:** Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt

**Cydweithio:** Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod

**Cynnwys:** Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid

**Atal:** Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu

**ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):**

Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch â'r Awdurdod Lleol

**RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLIAD(ARGYMHELLION):**

Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner.

**Enw Cyswllt:**

**Siân Howys**

**Swydd:**

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: (Plant a Theuluoedd)**

**Dyddiad yr Adroddiad: 30 Mehefin 2022**

**Acronymau:**

CP – Amddiffyn Plant

CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant

Part 4 – Honiadau a wnaed yn erbyn aelod o staff neu'r rhai sy'n gweithio gyda phlant e.e. – gofawyr maeth, gwirfoddolwyr, cylchoedd chwarae at ati

CPCC – Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant

ICPC – Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol



# **GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR CEREDIGION**

**Adroddiad Rheoli Perfformiad**

**Chwarter: 4**

**1.1.22 – 31.3.22**

# Tudalen 8

## Tudalen 2 o 61

<b>CYNNWYS:</b>	<b>TUDALEN</b>
ADRAN 1: Cyflwyniad	3
ADRAN 2: Prif Ddata a Data Cymharol	4
ADRAN 3: Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant	6
ADRAN 4: Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant	9
ADRAN 5: Cynadleddau Amddiffyn Plant	11
ADRAN 6: Y Gofrestr Amddiffyn Plant	20
ADRAN 7: Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn mewn Amgylchiadau Arbennig	24
ADRAN 8: Cyfarfodydd Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACSE)	25
ADRAN 9: Adroddiad Cryno Blynyddol	26
ADRAN 10: Yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC)	27
ADRAN 11: Gwasanaethau Dysgu	30
ADRAN 12: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	36
ADRAN 13: Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (S-CAMHS)	37
ADRAN 14: Diogelu Oedolion	44



## **ADRAN 1: CYFLWYNIAD**

Dyma'r adroddiad rheoli amlasiantaethol ar gyfer diogelu plant yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2022. Mae'n darparu gwybodaeth rheoli perfformiad am y camau a gymerwyd i ddiogelu plant.

Mae'n cynnwys adroddiadau gan asiantaethau sy'n bartneriaid ynglŷn â diogelu a hybu llesiant plant yng Ngheredigion.

Mae'r dangosyddion a'r mesurau a ddefnyddir yn cael eu diffinio a'u hadrodd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae aelodau Grŵp Gweithredol Lleol CYSUR Ceredigion yn trafod y wybodaeth reoli hon yn gyson er mwyn monitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r trefniadau diogelu plant yng Ngheredigion a'r canlyniadau.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr adroddiad hwn at:

Elizabeth Upcott  
Rheolwr Corfforaethol Diogelu,  
[Elizabeth.Upcott@ceredigion.gov.uk](mailto:Elizabeth.Upcott@ceredigion.gov.uk)  
01545 574212

# Tudalen 10

Tudalen 4 o 61

## ADRAN 2: Prif Ddata a Data Cymharol

Canlyniadau'r Atgyfeiriadau	Ion-Maw 2022	Hyd-Rhag 2021	Gorff-Medi 2021	Ebrill-Meh 2021	Ion-Maw 2021
Adroddiadau / Atgyfeiriadau sy'n arwain at Drafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant	154	122	106	116	99
<b>Nifer y Cynadleddau Cychwynol Amddiffyn Plant (ac eithrio Cynadleddau Trosglwyddo a Chyn Geni)</b>	<b>8</b>	<b>4</b>	<b>9</b>	<b>8</b>	<b>3</b>
Nifer y Cynadleddau Cychwynol Amddiffyn Plant Cyn Geni	2	-	-	1	-
Nifer y Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant	-	-	1	-	1
Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant Cyn Geni	-	-	1	-	-
<b>Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynol Amddiffyn Plant (gan gynnwys Cynadleddau Trosglwyddo a Chyn Geni)</b>	<b>10</b>	<b>4</b>	<b>11</b>	<b>9</b>	<b>4</b>
<b>Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Cychwynol / Cyn Geni / Trosglwyddo</b>	<b>21</b>	<b>8</b>	<b>33</b>	<b>18</b>	<b>9</b>
<b>Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (ac eithrio Cynadleddau Trosglwyddo a Chyn Geni)</b>	<b>19</b>	<b>6</b>	<b>26</b>	<b>17</b>	<b>4</b>
Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni	2	-	-	1	-
Nifer y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill	-	-	-	-	3
Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant adeg geni ar ôl eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol eraill	-	-	1	-	-
<b>Cyfanswm y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar ôl Cynadleddau Cychwynol</b>	<b>21</b>	<b>6</b>	<b>27</b>	<b>18</b>	<b>7</b>
Cyfanswm y plant na roddwyd eu henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	-	2	6	-	2
<b>Nifer y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant</b>	<b>13</b>	<b>13</b>	<b>13</b>	<b>12</b>	<b>18</b>
Nifer y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant Cyn Geni	-	-	1		
<b>Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant (gan gynnwys Cyn Geni)</b>	<b>13</b>	<b>13</b>	<b>14</b>		
Nifer y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant	23	34	23	24	35
Nifer y plant â'u henwau i'w rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant pan gânt eu geni	-	-	1	-	-
<b>Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Adolygu / Cyn Geni</b>	<b>23</b>	<b>34</b>	<b>24</b>	<b>24</b>	<b>35</b>
<b>Cyfanswm y plant sy'n parhau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant</b>	<b>11</b>	<b>19</b>	<b>13</b>	<b>7</b>	<b>11</b>
Cyfanswm y plant y tynnwyd eu henwau oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	12	15	11	17	24

# Tudalen 11

Tudalen 5 o 61

## **Dadansoddiad:**

Roedd cynnydd sylweddol pellach yn nifer yr atgyfeiriadau a arweiniodd at gymryd camau gweithredu o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru yn ystod y chwarter hwn.


Canran y plant a drafodwyd mewn cynadleddau adolygu ac a gafodd eu datgofrestru oedd 52%.

# Tudalen 12

Tudalen 6 o 61


## ADRAN 3: Adroddiadau ac Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant

Ffynonellau'r Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant a'r nifer a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth					
Cysylltwyd gan	Ionawr	Chwefror	Mawrth	Cyfanswm	Data cymharol chwarter 3
Yr Heddlu	22	29	16	67	47
Addysg	14	16	4	46	39
Gwasanaethau Cymdeithasol Mewnol	6	9	11	26	19
Iechyd	4		1	5	7
Arall		1	3	4	2
Gwasanaeth Ieuencid	1	2		3	-
Perthynas/ffrind/aelod o'r gymuned	1		1	2	1
Tai		1		1	2
Asiantaethau Gwirfoddol					2
CAFCASS					2
Awdurdod Lleol Arall					1
Gwasanaeth Prawf / Cwmni Adsefydlu Cymunedol					-
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (MAWWF)					-
Meddyg Teulu					-
Adrodd am eu hunain					-
Ymddiriedolaeth Ambiwlans Gorllewin Cymru (WAST)					-
<b>Cyfanswm</b>	<b>48</b>	<b>58</b>	<b>48</b>	<b>154</b>	<b>122</b>



# Tudalen 13

Tudalen 7 o 61




## Dadansoddiad:

Yr Heddlu yw'r ffynhonnell fwyaf o atgyfeiriadau o hyd yn ystod y chwarter hwn; mae'r gyfradd ysgolion wedi parhau i gynyddu.

<b>Cyfeiriadau Post yr Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant a arweiniodd at Drafodaethau Strategaeth Rhan 3</b>					
<b>Tref Agosaf yn ôl Cyfeiriad Post</b>	<b>Ionawr</b>	<b>Chwefror</b>	<b>Mawrth</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>Data cymharol chwarter 3</b>
Aberystwyth	22	24	18	64	<b>38</b>
Llanbedr Pont Steffan	6	7	10	23	<b>21</b>
Aberteifi	5	8	8	21	<b>24</b>
Llandysul	1	7	8	16	<b>17</b>
Cei Newydd	3	5		8	<b>3</b>
Tregaron	2	4	2	8	<b>6</b>
Aberaeron	3	2		5	<b>10</b>
Sir arall	2		1	3	<b>2</b>
Arall	2	1		3	<b>1</b>
Castellnewydd Emlyn (Ceredigion)	2			2	-
Aber-porth			1	1	-
<b>Cyfanswm yr Atgyfeiriadau</b>	<b>48</b>	<b>58</b>	<b>48</b>	<b>154</b>	<b>122</b>

# Tudalen 14

Tudalen 8 o 61



## Dadansoddiad:


Aberystwyth yw'r ardal lle y ceir y nifer fwyaf o atgyfeiriadau yn gyson.

<b>Dadansoddiad yn ôl % o Weithgarwch Diogelu Chwarter 4 2021/2022 (1 Ionawr – 31 Mawrth)</b>			
Nifer yr holl Gysylltiadau Cychwynnol ynghylch gwybodaeth plant			
Cysylltiad/Atgyfeiriadau Offeryn Asesu a Chymhwysra Cenedlaethol (NAET) a neilltuwyd i'r Timau Plant – <b>1010</b>	Trafodaethau Strategaeth 21.8%	Ymholiadau Adran 47 – 6.49%	Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant 0.99%

Yn Chwarter 3, roedd 897 o gysylltiadau/atgyfeiriadau, ac o'r rhain aeth 14% ymlaen i Drafodaeth Strategaeth, aeth 5% i Ymholiad Adran 47, ac aeth 1% i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant.

**ADRAN 4: Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant**


<b>Nifer y Trafodaethau / Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant Rhan 3</b>					
<b>Ionawr</b>	<b>Chwefror</b>	<b>Mawrth</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>Data cymharol chwarter 3</b>	
48 (40)	58 (43)	48 (39)	154	122	
<b>Asiantaethau sy'n cynnal Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant</b>					
	<b>Ionawr</b>	<b>Chwefror</b>	<b>Mawrth</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>Data cymharol chwarter 3</b>
Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu	123	16	25	<b>64</b>	<b>45</b>
Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fel un asiantaeth			1	<b>1</b>	<b>4</b>
Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant gan yr Heddlu fel un asiantaeth					-
<b>Cyfanswm yr Ymholiadau</b>	<b>23</b>	<b>16</b>	<b>26</b>	<b>65</b>	<b>49</b>



# Tudalen 16

Tudalen 10 o 61

Categoriâu'r Ymholiadau Adran 47 Amddiffyn Plant					
Categori	Ionawr	Chwefror	Mawrth	Cyfanswm	Data cymharol chwarter 3
Cam-drin/Camfanteisio'n Rhywiol	5	8	16	29	12
Cam-drin Corfforol	12	4	6	22	22
Esgeulustod	2		1	3	5
Plentyn am Blentyn	1	2		3	-
Pryderon Proffesiynol	3			3	2
Camfanteisio		1	1	2	2
Cam-drin Emosiynol			1	1	3
Cam-drin Ar-lein		1		1	-
Cam-drin Corfforol/Pryderon Proffesiynol			1	1	
Cam-drin Corfforol/Emosiynol					2
Esgeulustod a Chamfanteisio					1
<b>Cyfanswm yr Ymholiadau</b>	<b>23</b>	<b>16</b>	<b>26</b>	<b>65</b>	<b>49</b>



Cyfweiliadau Fideo					
	Ionawr	Chwefror	Mawrth	Cyfanswm	Data cymharol chwarter 3
<b>Nifer y cyfweiliadau fideo â phlant</b>	-	-	-	-	-

## Dadansoddiad:

Y pryderon mwyaf a arweiniodd at gynnal ymholiadau amddiffyn plant oedd honiadau o gam-drin/camfanteisio'n rhywiol a cham-drin corfforol.

Cynhaliwyd y mwyafrif o'r ymholiadau ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant.




**ADRAN 5: Cynadleddau Amddiffyn Plant**

Mae'r tabl hwn yn cynnwys ffigurau wedi'u dadansoddi mewn perthynas â Chanlyniadau Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant					
Cyfanswm y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant	Nifer y plant	Nifer y plant heb eu geni	Nifer y teuluoedd	Nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, gan gynnwys rhai heb eu geni a rhai a drosglwyddwyd	Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth os na chofrestrwyd
10	19	2	10	21	-

**Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser**

Cofnodwyd bod 90.5% o'r Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl y Drafodaeth/Cyfarfod Strategaeth.

Mae'n bwysig nodi bod yr holl Gynadleddau Cychwynnol ac Adolygu Achos yn cael eu cynnal yn rhithiol trwy Microsoft Teams. Bu modd i rieni a phlant gymryd rhan yn y cyfarfodydd.




# Tudalen 18

Tudalen 12 o 61

## Cyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser

Cofnodwyd bod 95.2% o Gyfarfodydd y Grŵp Craidd Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl y Gynhadledd Gychwynol Amddiffyn Plant.



Mae'r tabl hwn yn dadansoddi canlyniadau'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant yn ôl niferoedd:						
Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant	Nifer y plant	Nifer y plant heb eu geni	Nifer y teuluoedd	Nifer y plant sy'n aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y plant a gafodd eu tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y plant â Chynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth yn dilyn datgofrestru
13	23	-	13	11	12	5

### Canlyniadau'r Adolygiadau:


O'r 12 o blant a ddatgofrestrwyd, derbyniodd 5 ymyrraeth bellach trwy Gynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth, roedd 2 yn destun Gorchymyn Llys ac yn Blant sy'n Derbyn Gofal, ac nid oedd angen unrhyw wasanaethau ar 5 person ifanc arall.

### Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser:

Cofnodwyd bod 78.3% o'r Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o fewn y terfynau amser. Yn achos 1 plentyn ni ddilynwyd yr amserlen oherwydd amgylchiadau teuluol ac roedd oedi gyda Chynhadledd teulu arall gyda 4 o blant oherwydd amgylchiadau teuluol.

# Tudalen 19

Tudalen 13 o 61



<b>Cyfranogiad rhieni a phlant mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant</b> *Data cymharol Chwarter 3 mewn cromfachau						
<b>*Adroddiad y Gweithiwr Cymdeithasol i rieni 24 awr cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant</b>	<b>*Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r teulu cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant</b>	<b>*Cadeirydd Amddiffyn Plant wedi cwrdd â'r plentyn cyn y Gynhadledd Amddiffyn Plant</b>	<b>*Aelod o'r teulu yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant</b>	<b>*Cyfleu barn plant mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant pan nad oeddent yn bresennol (5-18 oed)</b>	<b>*Presenoldeb plant yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant (11 oed neu'n hŷn)</b>	<b>*Plant y penodwyd eiriolwr / Tros Gynnal ar eu cyfer</b>
100% (94%)	87% (94%)	100% (0%) (Amh)	100% 100%	84% (94%)	8% (0%)	55% (68%)

## Cyfranogiad a Phresenoldeb Plant a Theluoedd mewn Cynadleddau:

### Presenoldeb rhieni, plant ac aelodau'r teulu:

Roedd o leiaf 1 rhiant / taid neu nain â chyfrifoldeb rhieni yn bresennol ym mhob un o'r 23 (100%) o Gynadleddau Amddiffyn Plant.

Roedd cyfanswm o 44 o rieni ac aelodau eraill o'r teulu yn bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant.

### Mae barn y plant a'r bobl ifanc wedi cael eu cynrychioli cyn ac yn ystod y Gynhadledd Amddiffyn Plant:

Roedd cyfanswm o 43 o blant o 22 o deuluoedd yn destun Cynadleddau Cychwynnol, Cyn Geni, Trosglwyddo ac Adolygu Amddiffyn Plant yn ystod y chwarter hwn.

Roedd y Cynadleddau yn cynnwys 2 (5%) plentyn cyn geni, 1 (2%) plentyn oedd yn iau na 6 mis oed, 0 (0%) plentyn oedd rhwng 6 a 12 mis oed, 7 (16%) plentyn oedd yn hŷn na blwydd oed ac

# Tudalen 20

## Tudalen 14 o 61

yn iau na 5 oed, 10 (23%) plentyn oedd rhwng 5 a 10 mlwydd oed, a 24 (54%) plentyn oedd rhwng 11 a 18 mlwydd oed.

Mynegwyd barn 8 (80%) plentyn a oedd rhwng 5 ac 10 mlwydd oed yn y Gynhadledd.

Nid oedd 2 (8%) o'r bobl ifanc 11 oed a hŷn wedi mynychu ei Gynhadledd; fodd bynnag cafodd barn 19 (86%) o'r bobl ifanc nad oeddent yn bresennol yn y Cynadleddau wedi cael ei chynrychioli yn y Gynhadledd.

Derbyniodd 18 (55%) o'r bobl ifanc a oedd yn hŷn na 5 mlwydd oed wasanaethau eiriolwr; cafodd 15 pellach eu hatgyfeirio am wasanaeth ond nid oedd adroddiad ar gael/y person ifanc wedi'i weld ar adeg y Gynhadledd.

### Dadansoddiad


Roedd aelodau o'r teulu yn bresennol mewn 100% o'r Cynadleddau.

<b>Crynodeb o'r Peryglon Pennaf/Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a nodwyd ac a drafodwyd yn y Cynadleddau Amddiffyn Plant</b>	
Mae'r tabl hwn yn seiliedig ar werthusiad y Cadeirydd Annibynnol o'r peryglon pennaf mewn Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant lle rhoddwyd enwau'r plant a nodwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, a Chynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant lle roedd enwau'r plant wedi aros ar y gofrestr.	
<b>Crynodeb o'r Peryglon Pennaf ar gyfer y 45 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 31 Mawrth 2022</b>	
Cam-drin Domestig (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	39 (86.7%)
Anawsterau iechyd meddwl y rhieni (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	30 (66.7%)
Troseddau treisgar gan oedolion	30 (66.7%)
Rhieni'n gwahanu wedi bod yn broblem yn y cartref (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	29 (64.4%)
Rhieni'n camddefnyddio sylweddau / alcohol (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	27 (60.0%)
Rhieni heb gydweithredu â'r Cynllun Amddiffyn Plant	20 (44.4%)
Camau cyfreithiol wedi'u cymryd i ddiogelu plant hŷn yn y teulu	14 (31.1%)
Person ifanc yn ymddwyn mewn ffyrdd peryglus / yn camddefnyddio sylweddau	10 (22.2%)
Perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant	7 (15.5%)
Mam, tad neu bartner wedi bod yn y carchar (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	6 (13.3%)
Troseddau gan oedolion yn erbyn plant	1 (2.2%)
Anableddau dysgu'r rhieni	0 (0.0%)

# Tudalen 21

Tudalen 15 o 61

Crynodeb o'r Peryglon Pennaf ar gyfer y 45 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 31 Mawrth 2022



# Tudalen 22


Tudalen 16 o 61

Y Tri Pherygl Pennaf Tocsig ar gyfer y 45 o blant a oedd ar Gofrestr Amddiffyn Plant Ceredigion ar 31 Mawrth 2022		
Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r Tri Pherygl Tocsig yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl y Rhieni)	18	40.0%
Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae Rhieni'n Gwahanu a / neu Garchariad yn ymddangos (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod)	30	66.7%
Nifer y plant sydd â Chynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth lle mae pob un o'r pum Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ymddangos (Cam-drin Domestig, Rhieni'n Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Meddwl y Rhieni, Rhieni'n Gwahanu a Charchariad)	5	11.1%

## Dadansoddiad:



Y prif ffactorau risg a gofnodwyd oedd cam-drin domestig, anawsterau iechyd meddwl rhieni, troseddau treisgar gan rieni, rhieni'n gwahanu a rhieni'n camddefnyddio sylweddau/alcohol.

## Presenoldeb Asiantaethau mewn Cynadleddau:



# Tudalen 23

## Tudalen 17 o 61



Mae'r siartiau uchod yn dangos yr asiantaethau a fu'n bresennol mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant. Ar gyfartaledd estynnwyd gwahoddiad i 6 aelod o staff asiantaethau i bob cynhadledd a bu 4 yn bresennol.

Roedd 5 adroddiad ysgrifenedig ar gyfartaledd ar gael ym mhob Cynhadledd Amddiffyn Plant.

Trefnwyd dyddiad ar gyfer Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant ym mhob cynhadledd pan oedd ei angen.

Roedd cworwm ymhob un o'r 23 (100%) Cynhadledd Amddiffyn Plant.

Mewn 2 (9%) Gynhadledd Amddiffyn Plant argymhellwyd galw cyfarfod Grŵp Teulu.

Darparodd Gweithwyr Cymdeithasol adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer pob un o'r 23 (100%) cynhadledd. Roedd pob un (100%) o'r adroddiadau a gyflwynwyd mewn Cynadleddau Cychwynnol yn cynnwys cronoleg.

Mynegodd 23 (100%) o weithwyr proffesiynol / asiantaethau eu barn am gofrestru a lefel y perygl ymhob cynhadledd.

Roedd 41 (93%) o benderfyniadau cofrestru Cynhadledd Amddiffyn Plant yn ddiennw, gyda 3 (7%) o gofrestriadau Cynhadledd Amddiffyn Plant yn benderfyniad mwyafrif.

Roedd 0 (0%) Cynhadledd Amddiffyn Plant wedi nodi bod anghytuno ynghylch diogelwch y Cynllun Amddiffyn Plant ar gyfer diogelu llesiant plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Adroddiad Rheoli Perfformiad 1/1/22 – 31/3/22

# Tudalen 24

## Tudalen 18 o 61

Mewn 0 (0%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gofalwr ifanc.

Mewn 1 (4%) Gynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod diffyg gwybodaeth ynghylch partner y fam.

Mewn 3 (13%) Chynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gan y person ifanc anabledd dysgu cymedrol / difrifol, ac mewn 4 (20%) Cynhadledd nodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Datblygu Unigol.

Mewn 2 (10%) Gynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gan y person ifanc anabledd corfforol/nam ar y synhwyrâu, ac mewn 8 (40%) nodwyd bod gan y person ifanc broblemau ymddygiad.

Mewn 4 (20%) Cynhadledd Amddiffyn Plant nodwyd bod gan y person ifanc anawsterau lleferydd/iaith, ac mewn 4 Cynhadledd (21%) nodwyd bod y plentyn wedi'i wahardd o'r ysgol.



## **ADBORTH PLANT A RHIENI**

Nid yw'r system flaenorol ar gyfer cael adborth plant a theuluoedd yn dilyn eu presenoldeb yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant wedi bod yn bosibl ers dechrau'r pandemig ym Mawrth 2020 oherwydd y ffaith bod yr holl Gynadleddau'n cael eu cynnal yn rhithiol.

Fodd bynnag, ers dechrau Ebrill 2021, mae Holiaduron Gwerthuso wedi cael eu hanfon at deuluoedd ar ôl iddynt fod yn bresennol yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant i geisio eu barn a'u hadborth. Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022, cafodd cyfanswm o 78 o Holiaduron Gwerthuso eu cylchredeg, fodd bynnag dim ond dau gafodd ei ddychwelyd.

Bydd y broses hon yn parhau hyd nes bod y Cynadleddau Amddiffyn Plant yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb.



**ADRAN 6: Y Gofrestr Amddiffyn Plant**

Mae'r tabl a'r siart isod yn rhoi data a thueddiadau'r Gofrestr ar ddiwedd pob chwarter gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf.

Y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y plant o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y teuluoedd o Geredigion wedi'u cofrestru dros dro ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y plant wedi'u cofrestru dros dro ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Nifer y teuluoedd wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Cyfanswm y plant wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Cyfanswm y teuluoedd wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant	Cyfanswm y plant o Geredigion wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sydd yn Blant sy'n Derbyn Gofal
31 Mawrth 2022	45	21	6	6	51	27	0
31 Rhagfyr 2021	36	16	10	7	46	23	2
30 Medi 2021	45	17	12	10	57	27	0
30 Mehefin 2021	29	15	13	6	42	21	4
31 Mawrth 2021	29	16	12	6	41	22	5
31 Rhagfyr 2020	46	24	7	5	53	29	5
30 Medi 2020	50	22	4	3	54	25	1
30 Mehefin 2020	46	24	4	2	50	26	4
31 Mawrth 2020	55	26	10	4	65	30	2
31 Rhagfyr 2019	35	20	12	5	47	25	3
30 Medi 2019	52	27	7	3	59	30	4
30 Mehefin 2019	55	31	10	5	65	36	3
31 Mawrth 2019	74	40	4	3	78	44	5
31 Rhagfyr 2018	53	32	2	2	55	34	4



# Tudalen 27

## Tudalen 21 o 61



# Tudalen 28

Tudalen 22 o 61



**Mesur 28 Llywodraeth Cymru – Yr amser ar gyfartaledd ar gyfer pob plentyn oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant:**

Ar gyfer y Mesur hwn mae'n ofynnol rhoi'r amser ar gyfartaledd mewn diwrnodau calendr y treuliodd pob plentyn ar y Gofrestr cyn eu datgofrestru yn ystod y chwarter dan sylw	Ionawr – Mawrth	223.7
--	-----------------	-------

	Ion-Maw 2022	Hyd-Rhag 2021	Gorff-Medi 2021	Ebrill-Meh 2021	Ion-Maw 2021	Hyd-Rhag 2020	Gorff-Medi 2020	Ebrill-Meh 2020	Ion-Maw 2020
<b>Cyfradd y 10,000 o blant o dan 18 oed</b>	35	28	35	23	23	36	39	36	42

**Mesur 27 Llywodraeth Cymru – Nifer y plant a ail-gofrestrwyd ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol o fewn y flwyddyn**

Cynadleddau Cychwynnol	Ion-Maw 2022	Hyd-Rhag 2021	Gorff-Medi 2021	Ebrill-Meh 2021	Ion-Maw 2021	Hyd-Rhag 2020	Gorff-Medi 2020	Ebrill-Meh 2020
Nifer y plant oedd wedi bod ar y gofrestr o'r blaen ac a ddatgofrestrwyd dros y 12 mis diwethaf	0	0	9	0	0	0	0	0

### Dadansoddiad

Mae nifer y plant ar y Gofrestr ar ddiwedd y cyfnod wedi cynyddu ers y chwarter blaenorol. Datgofrestrwyd 12 o blant oedd yn cynnwys 2 deulu gyda 3 o blant, 1 teulu gyda 2 o blant, a 4 teulu gydag 1 plentyn. Fodd bynnag, roedd 21 o blant wedi eu cofrestru mewn Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant. Roedd nifer y plant yn y teuluoedd hyn yn cynnwys 1 teulu gyda 7 o blant, 2 deulu gyda 3 o blant, 1 teulu gyda 2 o blant a 6 theulu pellach gydag 1 plentyn.

Mae'r categori cofrestru mwyaf yn parhau'r un fath sef cam-drin emosiynol ac esgeulustod sy'n adlewyrchu'r ffaith mai cam-drin domestig yw un o'r peryglon pennaf. Bydd y mwyafrif o blant ar y Gofrestr am gyfnod o hyd at 6 mis.

Mae mwy o fechgyn ar y Gofrestr na merched erbyn hyn.

Mae'r categori oedran cofrestru mwyaf yn parhau'r un fath sef plant 10-15 mlwydd oed.

## ADRAN 7: Cyfarfodydd Strategaeth Amddiffyn Plant wedi'u cynnal o dan Ran 4 a 5 o Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Atgyfeiriwyd 60 o blant a chynhaliwyd cyfanswm o 66 o gyfarfodydd strategaeth yn ystod y chwarter.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Strategaeth ar gyfer 1 Plentyn sy'n Derbyn Gofal o Geredigion a dim Plant sy'n Derbyn Gofal o Awdurdod Lleol arall.

Ni adroddwyd bod unrhyw Blant sy'n Derbyn Gofal o Geredigion sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir ac yn destun Ymholiadau Amddiffyn Plant yn ardal y lleoliad.

Categori o Gyfarfod Strategaeth Amddiffyn Plant (Amgylchiadau Penodol)	Ionawr Cyfarfodydd a gynhaliwyd	Chwefror Cyfarfodydd a gynhaliwyd	Mawrth Cyfarfodydd a gynhaliwyd	Cyfanswm yr achosion
Perygl o gamfanteisio ar blentyn	14	4	6	17
Pryderon ynghylch esgeulustod	2	4	4	6
Pryderon ynghylch cam-drin corfforol	0	1	0	1
Pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol	0	1	6	6
Pryderon ynghylch person ifanc yn mynd ar goll	1	0	0	1
Pryderon ynghylch cam-drin emosiynol	3	3	0	5
Pryderon ynghylch cam-drin rhywiol	1	0	3	3
Pryderon ynghylch person sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rhinwedd ei swydd	5	3	4	10
<b>Cyfanswm y cyfarfodydd</b>	<b>27</b>	<b>16</b>	<b>23</b>	
<b>Cyfanswm yr achosion a drafodwyd yn y chwarter hwn</b>				<b>48</b>

## ADRAN 8: Cyfarfodydd Rheoli Amlasiantaethol ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (MACE)

Achos Newydd / Adolygu	Ymadael / Aros yn MACE	Gwryw / Benyw	Oedran	Yn y cartref / mewn gofal	Cofrestr Amddiffyn Plant	Dyddiad y cyfarfod	Presenoldeb Asiantaethau
Adolygu	Aros	Benyw	15	C	Na	12.01.22	Diogelu, Gofal wedi'i Gynllunio, yr Heddlu, Addysg, Iechyd
Newydd	Aros	Benyw	16	C	Ie	12.01.22	Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Iechyd, Tîm o Amgylch y Teulu
Adolygu	Aros	Benyw	17	C	Na	12.01.22	Diogelu, Cymorth Estynedig, yr Heddlu, Diogelu Oedolion, Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Adolygu	Aros	Benyw	17	C	Na	13.01.22	Diogelu, yr Heddlu, WWHA, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Adolygu	Aros	Benyw	17	C	Na	18.01.22	Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Choices, WWHA, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Newydd	Aros	Gwryw	13	C	Na	21.01.22	Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Iechyd, Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Newydd	Ymadael	Gwryw	15	G	Na	02.02.22	Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Gwasanaethau Uniongyrchol
Adolygu	Aros	Gwryw	14	C	Na	08.02.22	Diogelu, Gofal wedi'i Gynllunio, yr Heddlu, Addysg, Iechyd, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid
Adolygu	Ymadael	Benyw	14	C	Na	29.03.22	Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Iechyd, Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Adolygu	Ymadael	Gwryw	16	C	Na	29.03.22	Diogelu, yr Heddlu, Addysg, Iechyd, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Daeth 3 achos newydd i'r cyfarfodydd MACE yn ystod Chwarter 4 a 7 achos i'w hadolygu. Roedd 6 achos yn fenywod 14-17 oed ac roedd 4 achos yn wrywod 13-16 oed. Mae 1 ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, mae 1 yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal.

Adroddiad Rheoli Perfformiad 1/1/22 – 31/3/22

**ADRAN 9: Adroddiad Cryno Blynyddol**

1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022

1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022		
<b>Cyfarfodydd/Trafodaethau Strategaeth Amddiffyn Plant</b>	Data cymharol ar gyfer y flwyddyn flaenorol	
Cyfarfodydd / Trafodaethau Strategaeth	498	378
Cyfarfodydd Strategaeth (Rhan 4 a 5)	193	105
<b>Canlyniadau Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant</b>		
Nifer y Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (ac eithrio Cynadleddau Trosglwyddo a Chyn Geni)	29	31
Cynadleddau Cychwynnol Cyn Geni Amddiffyn Plant	4	5
Cynadleddau Trosglwyddo Amddiffyn Plant	1	1
Cyfanswm Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant (gan gynnwys Cynadleddau Trosglwyddo a Chyn Geni)	34	37
Cyfanswm y plant a gafodd eu trafod mewn Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant	80	61
Cyfanswm y plant â'u henwau ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (gan gynnwys adeg eu geni)	72	52
Cyfanswm y plant a fu'n destun Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant heb eu cofrestru	8	9
Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant lle roedd plant ar y Gofrestr yn flaenorol ond wedi cael eu datgofrestru o fewn y 12 mis diwethaf	0	0
<b>Canlyniadau Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant</b>		
Cyfanswm y Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant	51	70
Cyfanswm y plant a adolygwyd	105	142
Enwau wedi'u datgofrestru o'r Gofrestr AP	55	78
<b>Nifer y Plant a Theuluoedd sy'n destun Cynadleddau Amddiffyn Plant</b>		
Nifer y Plant	106	115
Nifer y Teuluoedd	49	59



## ADRAN 10: Adroddiad yr Heddlu – Cynadleddau Amlasiantaethol Aseu Risg (MARAC)

Manylion Data Misol – Ionawr 2022

<b>Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC</b>	263				
<b>Nifer yr achosion a adolygwyd ac a arweiniodd at gam adolygu MRE (Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)</b>	151 o achosion 105 o achosion wedi deillio				
<b>Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol</b>	189 o achosion 135 o achosion wedi deillio				
<b>Achosion aeth i MARAC</b>	23 MARAC				
<b>Canran yr achosion</b>					
<b>Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth</b>	Sir Gaerfyrddin – 111 Ceredigion – 37 Sir Benfro – 59 Powys -56				
<b>Nifer y plant ar yr aelwyd</b>	Sir Gaerfyrddin – 91 Ceredigion – 24 Sir Benfro – 70 Powys -36				
	<b>Wedi arwain at MRE</b>	<b>Wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol</b>	<b>MARAC</b>	<b>Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC (*10 munud yr achos ar gyfartaledd)</b>	
Sir Gaerfyrddin	44	57	10		
Sir Benfro	25	29	5		
Ceredigion	18	17	2		
Powys	18	32	6		

## Manylion Data Misol – Chwefror

<b>Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC</b>	249				
<b>Nifer yr achosion a adolygwyd ac a arweiniodd at gam adolygu MRE (Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)</b>	120 81 wedi arwain at MRE				
<b>Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol</b>	168 133 wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol				
<b>Achosion aeth i MARAC</b>	35				
<b>Canran yr achosion</b>	Wedi arwain at MRE – 32.5% Wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol – 53.4% MARAC – 14.1%				
<b>Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth</b>	Sir Gaerfyrddin – 107 Ceredigion – 38 Sir Benfro – 53 Powys -51				
<b>Nifer y plant ar yr aelwyd</b>	Sir Gaerfyrddin – 80 Ceredigion – 35 Sir Benfro – 77 Powys -40				
	<b>Wedi arwain at MRE</b>	<b>Wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol</b>	<b>MARAC</b>	<b>Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC</b>	
Sir Gaerfyrddin	39	56	12	(*10 munud yr achos ar gyfartaledd)	
Sir Benfro	10	32	3		
Ceredigion	28	18	10		
Powys	14	27	10		

## Manylion Data Misol – Mawrth

<b>Cyfanswm yr achosion oedd yn bodloni meini prawf MARAC</b>	279				
<b>Nifer yr achosion a adolygwyd ac a arweiniodd at gam adolygu MRE (Ailddigwydd/Uwchgyfeirio MARAC)</b>	111 wedi'u hadolygu 85 o achosion wedi deillio				
<b>Cyfanswm yr achosion a gafodd sylw mewn Trafodaethau Dyddiol</b>	194 wedi'u trafod 160 o achosion wedi deillio				
<b>Achosion aeth i MARAC</b>	34 achos i MARAC				
<b>Canran yr achosion</b>	30.5% wedi arwain at MRE 57.4% wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol 12.2% wedi mynd i MARAC				
<b>Dadansoddiad o nifer yr achosion yn ôl dosbarth</b>	120 – Sir Gaerfyrddin 28 – Ceredigion 66 – Sir Benfro 65 – Powys				
<b>Nifer y plant ar yr aelwyd</b>	106 – Sir Gaerfyrddin 24 – Ceredigion 64 – Sir Benfro 59 – Powys				
	<b>Wedi arwain at MRE</b>	<b>Wedi arwain at Drafodaethau Dyddiol</b>	<b>MARAC</b>	<b>Amser a arbedwyd yn mynd i MARAC</b>	
Sir Gaerfyrddin	43	58	19	(*10 munud yr achos ar gyfartaledd)	
Sir Benfro	20	42	4		
Ceredigion	8	18	2		
Powys	14	42	9		

**ADRAN 11: Gwasanaethau Dysgu****ADRODDIAD LOG GWASANAETHAU YSGOLION**  
**BWLIO**

Mae data bwlio yn parhau i gael eu gasglu yn dymhorol ym mhob cyfarfod Corff Llywodraethu ysgolion. Gweler isod y data a gasglwyd ar gyfer tymor yr hydref 2021 (a gafodd ei goladu yn ystod tymor y gwanwyn 2022).

<b>Math o Fwlio</b>	<b>Hydref 2021</b>
Gallu	8
Oedran	2
Edrychiad	2
Deuffobig	0
Anabledd	0
Rhyw	0
Homoffobig	2
Plentyn sy'n derbyn gofal	0
Anneuaidd	0
Beichiogrwydd neu Famolaeth	0
Hiliol	5
Crefydd neu Gred	0
Rhywiol	1
Cyfeiriadedd Rhywiol	1
Trawsfobig	0
Gofalwyr Ifanc	0
E-ddiogelwch	4
Arall	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>28</b>

Mae'r ffigyrau uchod yn dangos cynnydd yn nifer yr achosion o fwlio sydd yn cael eu cofnodi o'i gymharu â'r tymor blaenorol, sef tymor yr haf 2021, pan gafodd 13 o achosion eu hadrodd.

**HYFFORDDIANT / TRAINING**

Mae hyfforddiant Diogelu ac Amddiffyn Plant Lefel 1 ar gael fel rhaglen e-ddysgu yn unig a nodir isod nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod cyfnod chwarter 4. Yn ogystal, mae nifer y staff sydd wedi cwblhau Amddiffyn Plant Lefel 2 yn rhithiol yn ystod y cyfnod hwn wedi'i nodi hefyd.

Lefel 1	159
Lefel 2	24

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Mae 74 aelod o staff allanol wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ystod cyfnod chwarter 4.

**ADDYSG DDEWISOL GARTREF**




<b>Nifer y plant rydych yn ymwybodol ohonynt sydd yn cael eu haddysgu'n ddewisol gartref</b>	<b>Nifer y plant Addysg Ddewisol Gartref sy'n hysbys i'r Awdurdod Lleol sydd wedi cael cynnig ymweliad blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf</b>	<b>Canlyniad</b>
230	208	Wedi gwrthod – 33 Heb fynychu – 39 Wedi symud – 6

**PLANT SY'N DERBYN GOFAL**



Plant oedran ysgol statudol sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion	<i>Ionawr – 49</i> <i>Chwefror – 51</i> <i>Mawrth – 51</i>
Plant oedran ysgol statudol sy'n derbyn gofal a leolir y tu allan i'r Sir	<i>Ionawr – 20</i> <i>Chwefror – 20</i> <i>Mawrth – 20</i>
Plant oedran ysgol statudol sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol eraill	<i>Ionawr – 32</i> <i>Chwefror – 32</i> <i>Mawrth – 31</i>

**CYSYLLTIADAU YSGOLION**

Gweler isod nifer a natur y cysylltiadau a dderbyniwyd gan ysgolion / sefydliadau addysg yn ystod cyfnod chwarter 4.



Sylwer, roedd 22 o ysgolion cynradd wedi cysylltu yn ystod chwarter 4 (23 yn chwarter 3). Oherwydd y nifer uchel nid oedd modd cynnwys pob ysgol ar un tabl. Felly mae'r uchod dim ond yn nodi'r ysgolion oedd wedi cysylltu tair gwaith neu ragor yn ystod y cyfnod.




Oherwydd y nifer fawr o resymau a roddwyd ar gyfer cysylltu, mae rhai wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd fel y nodir isod er mwyn gallu cyflwyno'r wybodaeth yn fwy eglur ar y siart. Yn yr adroddiad arbennig hwn, rwyf wedi tynnu sylw at y prif bryderon a godwyd er mwyn cymharu â'r chwarteri blaenorol o'r flwyddyn hon.

Arf	
Cais am wybodaeth	
Cam-drin Domestig	
Corfforol	
E-ddiogelwch	Gan gynnwys camddefnyddio ffonau symudol/rhyngwrwyd ac anfon negeseuon anweddus
Esgeulustod	Gan gynnwys amodau'r cartref, problemau ariannol a goruchwyliaeth
Gofal	
Iechyd a Diogelwch	
Iechyd Meddwl Disgyblion	Gan gynnwys cam-drin emosiynol
Iechyd Meddwl Rhieni	
Llesiant	Gan gynnwys plant sydd ar goll, presenoldeb, tor-berthynas, gofaluwr ifanc, anawsterau cysylltu yn ystod y cyfnod clo, problemau cysylltu rhwng rhieni
Materion Cyfreithiol	
Atal	
Rhywiol	Gan gynnwys perthnasoedd amhriodol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant
Sylweddau Disgyblion	Gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol
Sylweddau Rhieni	Gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol
Materion Traws	
Ymddygiad Disgyblion	
Ymddygiad Rhieni	Gan gynnwys carchariad rhieni
Ymddygiad Staff	Gan gynnwys unrhyw gwynion/sylwadau ynghylch ymddygiad aelod o staff ysgolion a/neu sydd yn gysylltiedig ag ysgolion Ceredigion.

I'w nodi, cafodd 48 o ddisgyblion eu gwahardd o ysgolion uwchradd Ceredigion yn ystod cyfnod chwarter 4 am gyfanswm o 91 o ddiwrnodau. Y rhesymau a nodwyd am y gwaharddiadau yw: bwlio, camddefnyddio sylweddau, ymddygiad sy'n tarfu ar eraill, ymosodiadau corfforol, camymddwyn rhywiol, cam-drin geiriol ac eraill. Yn ogystal â hyn, derbyniodd Porth Cymorth Cynnar 128 o atgyfeiriadau ar gyfer cymorth ac atal yn ystod y chwarter (nid yw'r ffigur yma yn cynnwys atgyfeiriadau gan y Tîm o Amgylch y Teulu).





**ADRAN 12: Iechyd**

## **ADRAN 13: GWIRIWYD GAN Y GWASANAETHAU ARBENIGOL IECHYD MEDDWL PLANT A'R GLASOED (S-CAMHS)**

### **Adroddiad Diweddarau S-CAMHS ar gyfer CYSUR**

Yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru "Canllawiau Derbyn", mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi rhoi Polisi / Llwybr Derbyn cadarn yn ei le yn amlinellu'r broses ar gyfer derbyn unrhyw berson ifanc i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion. Mae'r canllawiau yn datgan bod rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael Uned ddynodedig, ac o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr uned ddynodedig yw Ward Morlais ar gampws Ysbyty Glangwili.

Mae protocol newydd wedi cael ei gymeradwyo i fodloni'r gofyniad statudol hwn a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth yn erbyn disgwyliadau Llywodraeth Cymru.

Gall cael eich derbyn i ward iechyd meddwl oedolion fod yn brofiad brawychus a gwneir pob ymdrech i ystyried y dewis arall lleiaf cyfyngol ar gyfer derbyn cleifion. Yn y mwyafrif o achosion caiff person ifanc ei dderbyn i'r uned ddynodedig ar Ward Cilgerran wedi'i gefnogi gan staff o'r uned iechyd meddwl.

Yn unol â'r canllawiau, mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol ar ddiogelu pobl ifanc ac, yn ogystal, mae staff ar Ward Morlais i gyd wedi cwblhau'r canlynol:

Hyfforddiant Diogelu Plant Lefel 3



Tystysgrif DBS fanylach ddilys


Hyfforddiant penodol ar anghenion emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

Hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Rhaid i bawb a dderbynnir i wely iechyd meddwl gael ei adrodd, yn fewnol i gychwyn, fel DATIX, a dilynir hyn gan adroddiad Digwyddiad Anffafriol Difrifol i'r Uned Gyflenwi yn unol â'r ddogfen Canllawiau Derbyn Llywodraeth Cymru.

**Chwarter 4 Derbyniadau i wely addas i'r oedran yr Enfys / Morlais ar y Ward Iechyd Meddwl Oedolion ar safle Ysbyty Glangwili:**




**Chwarter 4 Derbyniadau i wely addas i'r oedran yr Enfys / Morlais yn ôl rhyw:**


I'w nodi, yn ystod y cyfnod lonawr – Chwefror, cafodd 1 benyw ac 1 gwryw eu derbyn ar fwy nag un achlysur.

Cafodd 1 gwryw ei dderbyn unwaith ym mis Ionawr ac unwaith ym mis Chwefror.

Cafodd 1 benyw ei derbyn unwaith ym mis Ionawr ac unwaith ym mis Mawrth.

**Chwarter 4 Derbyniadau i wely'r Enfys / Morlais yn ôl ardal:****Derbyniadau i Wely Addas i Oedran Paediatreg (Uned yr Enfys, ddim yn adroddadwy)**

Mae cofnodion arbenigol CAMHS ar gyfer Chwarter 4 wedi'u hamlinellu uchod gyda chyfanswm o 13 wedi'u derbyn, gyda 6 wedi'u derbyn i'r gwely pediatrig a 7 wedi'u derbyn i'r Ward Iechyd Meddwl Oedolion (Morlais).

**Chwarter 4 Derbyniadau i'r Enfys / Morlais wedi'i rannu yn ôl tîm derbyn:****Statws Deddf Iechyd Meddwl**

Cafwyd 5 x achos Adran 136 pobl ifanc o dan 18 oed yn ystod y cyfnod hwn. Roedd yn cynnwys 3 unigolyn.

Roedd 2 unigolyn yn destun Adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

**Canlyniadau Derbyn**

	Wedi'i ryddhau i'w gartref	Ei dderbyn i ward arall	Aros ar y ward
<b>Enfys</b>	4	0	0
<b>Morlais</b>	4	1	0


**Derbyniadau sy'n gysylltiedig â chleifion hunan-niweidio**

O fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mae systemau cadarn yn eu lle i S-CAMHS ddarparu asesiad iechyd meddwl yn dilyn atgyfeiriad gan y ward pediatrig, lle mae unrhyw berson ifanc yn cael ei dderbyn yn dilyn achos o hunan-niweidio. Yn gyffredinol y rheswm am ei dderbyn yw gorddos, ond gall fod yn dilyn achos bwriadol o dorri'r croen neu geisio crogi ei hun.


Bydd pob achos o orddos/hunan-niweidio yn cael apwyntiad dilynol o fewn tri diwrnod gwaith i fonitro risg a darparu cymorth. Mae llwybr cadarn yn ei le ynghyd ag arweiniad ar gyfer derbyn yr holl bobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain yn dilyn hunan-niweidio er mwyn gallu cytuno ar asesiad iechyd meddwl cynhwysfawr a rheoli risg. Lle y bo'n briodol, gellir ystyried atgyfeirio i'r tîm diogelu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion am y nifer a dderbyniwyd yn dilyn hunan-niweidio bwriadol yn Chwarter 4 2021/2022 ar gyfer y 3 Ardal Awdurdod Lleol:


**Chwarter 4 Ystadegau derbyniadau hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw ac ardal:**




**Chwarter 4 Ystadegau derbyniadau hunan-niweidio / gorddos wedi'u rhannu yn ôl rhyw a phroffil oedran:**



**Data Cymhariaeth (12 mis diwethaf) – Gwely Addas i'r Oedran**




**Tueddiadau Derbyniadau yn ôl ardal (12 mis diwethaf)**





### Cymhariaeth Derbyniadau Blynyddol yn ôl ardal

Mae'r graff canlynol yn cymharu'r nifer a dderbyniwyd ar gyfer Chwarter 4 2021/2022 yn erbyn y nifer a dderbyniwyd ar gyfer yr un chwarter yn 2019/2020 a 2020/2021, wedi'i ddiffinio ymhellach yn ôl ardal.



### Eiriolaeth

Yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2012, disgwylir i'r Byrddau Iechyd sicrhau bod mynediad i Wasanaethau Eiriolaeth yn ei le, yn unol â Rhan 4 y Mesur, ar gyfer unrhyw unigolyn a dderbynnir i'r ysbyty. Gofynnir i bob person ifanc a dderbynnir i Ward Morlais a hoffent gael mynediad i Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol. Y targed perfformiad disgwylidig yw bod 100% o gleientiaid yn cael cynnig hyn a bod y wybodaeth yn cael ei chofnodi a'i hadrodd trwy ein Dadansoddwr Gwybodaeth.

Ar Ward Cilgerran mae gwybodaeth yn cael ei darparu i bobl ifanc pan gânt eu derbyn ar argaeledd mynediad at y Gwasanaeth Eiriolaeth. Fodd bynnag, nid yw'r safon perfformiad uchod yn gymwys, felly nid yw data yn cael eu casglu fel mater o arfer.

# **GRŴP GWEITHREDOL LLEOL CYSUR CEREDIGION**

**Adroddiad Rheoli Perfformiad – Diogelu Oedolion**


**Chwarter: 3**

**1/1/22 – 31/3/22**


## Nifer yr Oedolion mewn Perygl a Adroddwyd

### Nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso


2020-2021 – Chwarter 4	146
2021-2022 – Chwarter 1	133
2021-2022 – Chwarter 2	153
2021-2022 – Chwarter 3	118
2021-2022 – Chwarter 4	108




<b>Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd</b>	
<b>Adroddiadau – Fesul Mis</b>	
<b>Labeli Rhes</b>	<b>Rhif Adnabod Asesu</b>
<b>2020-2021 – Chwarter 4</b>	<b>157</b>
Ionawr	38
Chwefror	67
Mawrth	52
<b>2021-2022 – Chwarter 1</b>	<b>146</b>
Ebrill	51
Mai	46
Mehefin	49
<b>2021-2022 – Chwarter 2</b>	<b>183</b>
Gorffennaf	54
Awst	75
Medi	54
<b>2021-2022 – Chwarter 3</b>	<b>139</b>
Hydref	51
Tachwedd	51
Rhagfyr	37
<b>2021-2022 – Chwarter 4</b>	<b>137</b>
Ionawr	50
Chwefror	43
Mawrth	44
<b>Cyfanswm</b>	<b>762</b>




Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Ffynhonnell Adroddiadau						
Adroddiadau – Fesul Mis						
Rhif Adnabod Asesu	Labeli Colofn					
Labeli Rhes	2020-2021 – Chwarter 4	2021-2022 – Chwarter 1	2021-2022 – Chwarter 2	2021-2022 – Chwarter 3	2021-2022 – Chwarter 4	Cyfanswm
Eiriolwr				1	2	3
Y Gwasanaeth Ambiwllans	3	3	4	5	1	16
Rheoleiddiwr Gofal	2		2			4
Ysbyty Annibynnol	1			1		2
Awdurdod lleol	14	22	28	19	14	97
Bwrdd Iechyd Lleol	37	38	27	19	19	140
Arall	7	8	20	23	14	72
Yr Heddlu	35	34	35	21	29	154
Gwasanaeth Prawf	1	1			2	4
Asiantaeth Ddarparu	36	25	45	34	44	184
Perthynas / Ffrind	6	6	11	5	7	35
Adrodd am eu hunain	3	5	2	2	1	13
Trydydd Sector	12	4	9	9	4	38
<b>Cyfanswm</b>	<b>157</b>	<b>146</b>	<b>183</b>	<b>139</b>	<b>137</b>	<b>762</b>




Cam-drin Corfforol			
Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl Derbyniwyd – Cam-drin Corfforol			
Rhif Adnabod Asesu	Labeli Colofn		
Labeli Rhes	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
2020-2021 – Chwarter 4	15	20	35
2021-2022 – Chwarter 1	19	23	42
2021-2022 – Chwarter 2	21	30	51
2021-2022 – Chwarter 3	24	35	59
2021-2022 – Chwarter 4	15	33	48
<b>Cyfanswm</b>	<b>94</b>	<b>141</b>	<b>235</b>



Cam-drin Rhywiol			
Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Cam-drin Rhywiol			
Rhif Adnabod Asesu	Labeli Colofn		
Labeli Rhes	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
2020-2021 – Chwarter 4	3	13	16
2021-2022 – Chwarter 1	6	11	17
2021-2022 – Chwarter 2	6	12	18
2021-2022 – Chwarter 3	3	9	12
2021-2022 – Chwarter 4	2	10	12
<b>Cyfanswm</b>	<b>20</b>	<b>55</b>	<b>75</b>




Cam-drin Emosiynol / Seicolegol			
Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Cam-drin Emosiynol/Seicolegol			
Rhif Adnabod Asesu	Labeli Colofn		
Labeli Rhes	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
2020-2021 – Chwarter 4	26	56	82
2021-2022 – Chwarter 1	25	49	74
2021-2022 – Chwarter 2	36	40	76
2021-2022 – Chwarter 3	17	29	46
2021-2022 – Chwarter 4	25	36	61
<b>Cyfanswm</b>	<b>129</b>	<b>210</b>	<b>339</b>







Cam-drin Ariannol			
Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Cam-drin Ariannol			
Rhif Adnabod Asesu	Labeli Colofn		
Labeli Rhes	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
2020-2021 – Chwarter 4	17	19	36
2021-2022 – Chwarter 1	21	17	38
2021-2022 – Chwarter 2	23	27	50
2021-2022 – Chwarter 3	12	10	22
2021-2022 – Chwarter 4	16	9	25
<b>Cyfanswm</b>	<b>89</b>	<b>82</b>	<b>171</b>




<b>Esgeulustod</b>			
<b>Nifer yr adroddiadau o oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl a dderbyniwyd – Esgeulustod</b>			
<b>Rhif Adnabod Asesu</b>	<b>Labeli Colofn</b>		
<b>Labeli Rhes</b>	<b>Gwryw</b>	<b>Benyw</b>	<b>Cyfanswm</b>
2020-2021 – Chwarter 4	36	37	73
2021-2022 – Chwarter 1	26	28	54
2021-2022 – Chwarter 2	31	26	57
2021-2022 – Chwarter 3	27	25	52
2021-2022 – Chwarter 4	16	25	41
<b>Cyfanswm</b>	<b>136</b>	<b>141</b>	<b>277</b>




Nifer yr adroddiadau a aeth ymlaen i ymholiad					
Adroddiadau a arweiniodd at Ymholiadau					
Rhif Adnabod Asesu	Labeli Colofn				
Labeli Rhes	Na – Arall (nodwch os gwelwch yn dda)	Na – Gwrthododd yr unigolyn gymryd rhan mewn ymholiad	Na – Nid oedd yr unigolyn yn oedolyn mewn perygl	Wedi arwain at ymholiad	Cyfanswm
2020-2021 – Ch4	21	2	28	106	157
2021-2022 – Ch1	25	3	27	91	146
2021-2022 – Ch2	50	10	33	90	183
2021-2022 – Ch3	63	1	20	55	139
2021-2022 – Ch4	55	2	24	56	137
<b>Cyfanswm</b>	<b>214</b>	<b>18</b>	<b>132</b>	<b>398</b>	<b>762</b>




Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad nad oedd angen gweithredu			
Rhif Adnabod Asesu	Labeli Colofn		
Labeli Rhes	le	Naddo	Cyfanswm
2020-2021 – Chwarter 4	6	100	106
2021-2022 – Chwarter 1	7	84	91
2021-2022 – Chwarter 2	9	81	90
2021-2022 – Chwarter 3	4	51	55
2021-2022 – Chwarter 4	6	50	56
<b>Cyfanswm</b>	<b>32</b>	<b>366</b>	<b>398</b>




<b>Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Cartref Eich Hun</b>	
<b>Labeli Rhes</b>	<b>Rhif Adnabod Aseu</b>
2020-2021 – Chwarter 4	5
2021-2022 – Chwarter 1	4
2021-2022 – Chwarter 2	6
2021-2022 – Chwarter 3	1
2021-2022 – Chwarter 4	4
<b>Cyfanswm</b>	<b>20</b>




<b>Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Cymuned</b>	
<b>Labeli Rhes</b>	<b>Lle – Cymuned</b>
2021-2022 – Chwarter 1	2
2021-2022 – Chwarter 2	1
2021-2022 – Chwarter 3	1
2021-2022 – Chwarter 4	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>6</b>




<b>Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Lleoliad Cartref Gofal</b>	
<b>Labeli Rhes</b>	<b>Rhif Adnabod Aseu</b>
2020-2021 – Chwarter 4	1
2021-2022 – Chwarter 1	1
2021-2022 – Chwarter 2	3
2022-2022 – Chwarter 3	2
2022-2022 – Chwarter 4	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>7</b>




Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Iechyd	
2020-2021 – Chwarter 4	0
2021-2022 – Chwarter 1	0
2021-2022 – Chwarter 2	0
2022-2022 – Chwarter 3	0
2022-2022 – Chwarter 4	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>0</b>



Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Lle				
Cyfnod	Cartrefi eu Hunain	Cymuned	Cartrefi Gofal	Iechyd
2020-2021 – Chwarter 4	5	0	1	0
2021-2022 – Chwarter 1	4	2	1	0
2021-2022 – Chwarter 2	6	1	3	0
2022-2022 – Chwarter 3	1	1	2	0
2022-2022 – Chwarter 4	4	2	0	0




Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Gweithiwr Cyflogedig	
Labeli Rhes	Rhif Adnabod Asesu
2020-2021 – Chwarter 4	1
2021-2022 – Chwarter 1	1
2021-2022 – Chwarter 2	1
2021-2022 – Chwarter 3	1
2021-2022 – Chwarter 4	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>5</b>







Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Perthynas / Ffrind	
Person – Perthynas / Ffrind	
Labeli Rhes	Rhif Adnabod Asesu
2020-2021 – Chwarter 4	2
2021-2022 – Chwarter 1	3
2021-2022 – Chwarter 2	4
2021-2022 – Chwarter 3	1
2021-2022 – Chwarter 4	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>13</b>




<b>Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Defnyddiwr Gwasanaeth Arall</b>	
2020-2021 – Chwarter 4	0
2021-2022 – Chwarter 1	0
2021-2022 – Chwarter 2	3
2021-2022 – Chwarter 3	0
2021-2022 – Chwarter 4	0



<b>Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – person sy'n gyfrifol – Arall</b>	
<b>Person – Arall</b>	
2020-2021 – Chwarter 4	3
2021-2022 – Chwarter 1	3
2021-2022 – Chwarter 2	2
2021-2022 – Chwarter 3	2
2021-2022 – Chwarter 4	2
<b>Cyfanswm</b>	<b>12</b>



Nifer yr ymholiadau a ddaeth i'r casgliad bod angen gweithredu – Person					
Cyfnod	Gweithiwr Cyflogedig	Perthynas / Ffrind	Gwirfoddolwr	Defnyddiwr Gwasanaeth Arall	Arall
2020-2021 – Chwarter 4	1	2	0	0	3
2021-2022 – Chwarter 1	1	3	0	0	3
2021-2022 – Chwarter 2	1	4	0	3	2
2021-2022 – Chwarter 3	1	1	0	0	2
2021-2022 – Chwarter 4	1	3	0	0	2



Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu
<b>DYDDIAD:</b>	26-09-2022
<b>LLEOLIAD:</b>	Cyfarfod rhithwir
<b>TEITL:</b>	Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar Orffennaf 12 <sup>fed</sup> 2022 ac Adroddiad Blynyddol Llesiant Lleol Ceredigion 2021-2022

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu graffu ar y penderfyniadau a wnaed neu'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a chael Adroddiad Blynyddol Llesiant Lleol Ceredigion 2021-22

**RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** Fel y Pwyllgor Craffu dynodedig ar gyfer cymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**CEFNDIR:**

O dan Adran 35 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r pŵer i graffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerwyd, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol wrth arfer ei swyddogaethau.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol yn ymwneud â chyflawni eu Cynlluniau Llesiant. Mae'n ofyniad statudol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 bod Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol yn craffu ar adroddiadau blynyddol. Yn wahanol i'r asesiadau llesiant a'r cynlluniau llesiant, nid oes rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus aros ar gyfer argymhellion y panel craffu i gymeradwyo adroddiadau blynyddol ond, anogir y Bwrdd i ddefnyddio argymhellion Craffu wrth ddatblygu rhaglenni gwaith a rhoi adroddiadau yn y dyfodol.

**COFNODION CYFARFODYDD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CEREDIGION A GYNHALIWDYD AR ORFFENNAF 12<sup>fed</sup> 2022.**

Cyflwynir cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar Orffennaf 12<sup>fed</sup> 2022 i'r Pwyllgor a gellir eu gweld yn **Atodiad 1**.

# Tudalen 70

Cyflwynwyd a chymeradwywyd Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar gyfer 2021-22 ym Mwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, yn ei gyfarfod ar Orffennaf 12<sup>fed</sup> 2022, ac mae hwn i'w weld yn **Atodiad 2**.

**A oes Aseiad Effaith Integredig** Heb ei gwblhau gan nad wedi'i gwblhau? **Os nad oes,** yw'r adroddiad yn newid i dywedwch pam Bolisi na Gwasanaeth.

**LLESIANT  
CENEDLAETHAU'R  
DYFODOL:**

**Crynodeb:**  
**Hirdymor:**  
**Integreiddio:**  
**Cydweithio:**  
**Cynnwys:**  
**Atal:**

## **ARGYMHELLION:**

- i. **Cael cofnodion drafft cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar Orffennaf 12fed 2022**
- ii. **Cael Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2021-22**

## **RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Enw Cyswllt:**

Alun Williams

**Swydd:**

Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r  
Cyhoedd

**Dyddiad yr Adroddiad:**

5-09-2022

# Ceredigion

## Public Services Board

**Cyfarfod 30**  
**12 Gorffennaf 2022, 14:00**  
**Cyfarfod Rhithiol ar Zoom**

### COFNODION

<b>Yn bresennol:</b>	
Y Cyngorydd Bryan Davies (BD)	Cadeirydd, Cyngor Sir Ceredigion
Eifion Evans (EE)	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cyngorydd Elwyn Williams (EW)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Iwan Cray (IC)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Dr Joanne McCarthy (JMc)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Dr Phil Kloer (PK)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Rachel Jarvis (RJ)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rhodri Llwyd Morgan (RLM)	Prifysgol Aberystwyth
Superintendent Ross Evans (RE)	Heddlu Dyfed Powys
Vanessa Cashmore (VC)	Coleg Ceredigion
Hazel Lloyd-Lubran (HLL)	CAVO
Gwilym Dyfri Jones (GDJ)	Prifysgol Drindod Dewi Sant
<b>Hefyd yn bresennol:</b>	
Alun Williams (AW)	Cyngor Sir Ceredigion
Amy Richmond-Jones (ARJ)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Cllr Keith Evans (KE)	Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, CSC
William Beharrell (WB)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Carwyn Young (CY)	Cyngor Sir Ceredigion
Richard Felton (RF)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Inspector Ashley Brice (AB)	Heddlu Dyfed Powys
Dewi Day (DeD)	Prifysgol Aberystwyth
Barry Rees (BR)	Cyngor Sir Ceredigion
Jan Batty (JB)	Tîm Iechyd Cyhoeddus HDdUHB
<b>PSB Support team:</b>	
Diana Davies (DiD)	Cyngor Sir Ceredigion
Naomi McDonagh (NMc)	Cyngor Sir Ceredigion
Kieran Metson (KM)	Cyngor Sir Ceredigion

## Tudalen 72

<b>30.1</b>	<b>Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datgelu buddiant</b>
<b>Ymddiheuriadau:</b> Victoria Jones, Llywodraeth Cymru; Christine Harley, Gwasanaeth Prawf; Elen James, Cyngor Sir Ceredigion; Maria Battle, HDdUHB.	
<b>30.2</b>	<b>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion</b>
<b>30.2.1 – Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd</b> Esboniodd EE gan law dyma oedd y cyfarfod cyntaf ers etholiadau Llywodraeth Leol bydd yn cyflawni goblygiadau statudol i agor y cyfarfod a gofyn am enwau ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.  Argymhellwyd gan RLM i Arweinydd y Cyngor Sir fod yn Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Lleol ac eiliwyd hyn gan EW. Bu i BD dderbyn rôl y Cadeirydd. <b>Penderfyniad:</b> Bu i Bryan Davies gael ei benodi fel Cadeirydd y BGC  Bu i'r Cadeirydd wahodd enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd. Bu i RLM gynnig Hazel Lloyd-Lubran fel Is-gadeirydd a bu i IC eilio'r cynnig. Bu i HL dderbyn rôl Is-gadeirydd <b>Penderfyniad:</b> Penodwyd Hazel Lloyd-Lubran fel Is-gadeirydd y BGC	
<b>30.2.2 – Penderfynu pryd a sut y bydd BGC Ceredigion yn dod ynghyd</b> Bu BGC Ceredigion yn cynnal 5 cyfarfod y flwyddyn yn y gorffennol. Bu i BD dderbyn y dylai hyn barhau. Caiff y dyddiadau eu cadarnhau. <b>Penderfyniad:</b> Bydd y BGC yn parhau i gyfarfod 5 gwaith y flwyddyn a bydd y dyddiadau cyfarfod yn y dyfodol i'w cadarnhau.	
<b>30.2.3 – Cytuno ar y Cylch Gorchwyl</b> Bu i NMc gyflwyno'r Cylch Gorchwyl cyfredol ac arfaethedig, gan gyfleu fod yr unig ddiwygiad a awgrymwyd ar dudalen 6 lle nodir bod nifer y grwpiau prosiect wedi gostwng o 6 i 3, gan gyfleu is-grwpiau sy'n seiliedig ar le o ran y BGC fel y cytunwyd yng nghyfarfod mis Medi y BGC. <b>Penderfyniad:</b> Cytunwyd y dylid diwygio'r Cylch Gorchwyl yn unol â'r uchod gan barhau i gyfarfod 5 gwaith y flwyddyn.	
<b>30.3</b>	<b>Cofnodion Cyfarfod blaenorol PGC Ceredigion– 07.03.22</b>
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 07.03.22 yn gywir.	
<b>30.4</b>	<b>Materion yn codi o gyfarfod blaenorol</b>
Cyfeiriwyd at ddsbarthu data a baratowyd gan Grŵp Prosiect seiliedig ar le Aberteifi y BGC. Bu i'r wybodaeth bellach gael ei dosbarthu i aelodau'r BGC er gwybodaeth.	
<b>30.5</b>	<b>Cynllun Llesiant Lleol – Adroddiad Blynyddol 2021-2022</b>



Dosbarthwyd yn electronig copi o Adroddiad Blynyddol Drafft y Cynllun Llesiant Lleol 2021-22 cyn y cyfarfod a bu i NMc gyflwyno adroddiad trosfwaol i'w gyd-ddarllen gyda'r adroddiad.

Nodwyd gan NMc yn amodol ar gymeradwyaeth oddi wrth y BGC ar gynnwys yr Adroddiad Lleol y caiff ei gyfieithu a'i gyhoeddi.

Gofynnodd HLL i'r cyfeiriad at CAVO ar dudalen 9 gael ei newid o "gwasanaethau" i "sefydliadau".

Dywedodd RLM fod yr adroddiad yn haws i'w ddarllen, yn ddiddorol, ac yn onest o dan amgylchiadau anodd. Teimlwyd bod angen nod arnom fel partneriaid ar y BGC er mwyn cynyddu momentwm. Gan fod y BGC bellach yn ffocysu ar 3 grŵp sy'n seiliedig ar le yn hytrach na 6 grŵp prosiect, dywedodd RLM ei fod yn bwysig fod y 3 prosiect yn derbyn y blaenoriaeth a'r sylw priodol er mwyn ystyried sut y gall y BGC gyflawni ei nod ar ran y Sir.

## 30.6 Cynllun Llesiant Lleol Drafft a Chrynodeb o'r Adroddiad

Adroddwyd gan NMC yr anfonwyd yr Amcanion Llesiant y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod y BGC at Gomisiynydd Genedlaethau'r Dyfodol i ddechrau ar gyfnod ymgynghori 14 wythnos yn unol â gofynion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd gan NMC gyfarfod wedi ei drefnu gyda Swyddfa'r Comisiynydd i drafod yr amcanion a chynllun arfaethedig y Cynllun Llesiant Lleol.

Er mwyn symud ymlaen â'r gwaith ar y Cynllun Llesiant Lleol bu Timau'r Partneriaethau yn ymgysylltu â phreswylwyr, busnesau a Chynghorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion; gan ddarparu cyfleu iddynt rannu eu barn ar yr hyn y dylai'r BGC ffocysu arno i gyflawni'r amcanion llesiant cytûn. Paratowyd arolwg a oedd yn gofyn yn uniongyrchol i ddinasyddion beth yn fwy y gall y gwasanaethau cyhoeddus ei wneud i gyflawni pob amcan. Roedd yr arolwg ar gael fel ffurflen ar lein neu gopiau caled mewn llyfrgelloedd lleol.

Dywedodd NMc y bu hyd yma 71 o ymatebion oddi wrth y cyhoedd. Clustnodwyd nifer o feysydd:

- Adborth ar gyfer Amcan 1 (lles economaidd): defnyddio busnesau lleol ac annog mentergarwch a chydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus.
- Adborth ar gyfer Amcan 2 (cynnal a chadw hawliau tramwy): diogelu a sicrhau bod mwy o ofod hygyrch gwyrdd a glas ar gael ar gyfer grwpiau cymunedol.
- Adborth ar gyfer Amcan 3 (llesiant amgylcheddol): cynllunio i'r dyfodol, rheoli tir a plannu coed
- Adborth ar gyfer Amcan 4 (llesiant Diwylliannol): gwella cyfathrebu, digwyddiadau cymunedol a mwy a dosbarthiadau Cymraeg am ddim

Cyfeiriwyd at gludiant cyhoeddus yn rheolaidd mewn arolygon a ddychwelwyd fel rhan o'r ymarfer hwn. Dywedodd NMC iddo gael ei awgrymu y dylai hyn gael ei godi yn Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion.

Yn ogystal â'r gwaith ymgysylltu a wnaed hyd yma, bydd arolwg ymgysylltu â disgyblion ysgol uwchradd yn cael ei ddisbarthu er mwyn ceisio sefydlu beth yn eu barn hwy a beth y gall y BGC ei wneud i fynd i'r afael â'r 4 amcan. Bydd yn cael ei ddisbarthu cyn diwedd tymor yr

ysgol a gwneir gwaith pellach dros yr haf i ymgysylltu â dinasyddion â nodweddion gwarchoddedig.

Bu i'r ymatebion i'r ymgysylltiad hyd yma yn ogystal â'r wybodaeth yn yr Asesiad o Lesiant Lleol a gwybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth bartneriaid gynorthwyo wrth lunio 'cynllun ar dudalen' drafft ar gyfer y Cynllun Llesiant Lleol nesaf. Caiff hwn ei gefnogi gan gamau gweithredu arfaethedig, ac yn amodol ar gytundeb y BGC bydd yn ffurfio'r fframwaith i weithredu ar yr amcanion o fewn Cynllun Llesiant Lleol 2023-28.

Nodwyd gan NMC fod tlodi a chaledi yn cael effaith ar leisiant ac iechyd corfforol yn ogystal â meddyliol. Ymhlith yr argyfwng costau byw, ystyrir bod mynd i'r afael â thlodi yn flaenoriaeth ac argymhellir y dylai fod yn thema trawsbynciol yn y cynllun newydd. Esboniodd NMC fod cyfleoedd o dan bob un o'r pedwar amcan, lle bo camau gweithredu cytûn a gymerwyd gan bartneriaid â'r potensial i wneud gwahaniaeth a gwneud cyfraniad positif i ymdrin â'r flaenoriaeth yma. Bu i NMC hefyd esbonio y caiff y camau allweddol i fynd i'r afael â chaledi eu trafod â'u harchwilio yn Is-grŵp Tlodi nesaf y BGC ar 19eg Gorffennaf 2022 a bydd hyn yn sicrhau y bydd cyflawni Strategaeth Mynd i'r afael â Chaledi yng Ngheredigion yn parhau.

Gofynnodd NMC i aelodau'r BGC a oeddent yn cytuno y dylai Tlodi a Chaledi gael ei gynnwys yn y Cynllun Llesiant Lleol fel thema trawsbynciol.

**Penderfyniad: Cytunodd aelodau'r BGC y dylai Tlodi a Chaledi gael ei gynnwys yn y Cynllun Llesiant Lleol fel thema trawsbynciol.**

Awgrymodd NMC y dylai 'cynllun ar dudalen' fod yn rhan o gyflwyno'r cynllun ac y caiff ei gefnogi gan fwy o fanylder gan gynnwys camau gweithredu penodol o dan bob un o'r amcanion gyda'r is-benawdau canlynol:

- Pan yr amcan yma
- Yr hyn dylid mynd i'r afael ag ef
- Ein uchelgais
- Beth fyddwn ni yn ei wneud
- Cyflawni'r amcan llesiant a sut y bydd yn cyfrannu at y nodau llesiant
- Mesurau ar gyfer gwelliant

Dywedodd NMC y dylai'r adran 'Beth fyddwn ni yn ei wneud' gynnwys camau gweithredu pendant, gan fod yn glir am yr hyn yr hoffai BGC ei wneud er mwyn eu cyflawni. Bu i NMC awgrymu camau gweithredu ond bydd yn rhaid iddynt adlewyrchu ystyriaethau a mewnbwn partneriaid.

Diolchodd BD i NMC am yr adroddiad, gan gyfeirio'n benodol i'r caledi ariannol sy'n wynebu Ceredigion, ac sydd yn anodd mewn ardal sydd mor wledig. Roedd Aelodau'n hapus gyda'r cynllun a'r papur. Nodwyd gan IC fod y papur yn fwy cryno ac yn benodol sy'n ei wneud yn haws i'r darlennydd edrych ar y cynllun a'r allbynnau.

Gofynnwyd cwestiwn am eiriad Amcan 3 parthed Aberystwyth yn dref carbon niwtral erbyn 2030. Mae hwn yn ffurf gwahanol i carbon sero net. Bwriedir gofyn am gadarnhad oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru ai hwn oedd y terminoleg cywir.

**Camau Gweithredu: Bydd RJ yn gofyn am esboniad pellach oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru ar**

### **y terminoleg cywir am Amcan 3.**

Bu i HLL gytuno â'r sylwadau blaenorol parthed y fformat a pha mor fanwl a phenodol y bydd angen i'r camau gweithredu fod yn benodol. Dylai fynd i'r afael â chaledi a thlodi wrth wraidd yr hyn rydym ni'n ei wneud fel partneriaeth, fodd bynnag bu i HLL ofyn a oedd mecanwaith ar gael i asesu llwyddiant hyn. Bu i HLL hefyd ofyn a fyddai adran a luniwyd o amgylch camau gweithredu penodol yn gwneud synnwyr; i'r BGC nodi hyn mewn tair adran 'gweithredu'; a all gynnwys 'camau cyflym ymlaen', ymrwymiad y bydd pob sefydliad yn y BGC yn llofnodi ac yn ymrwymo at fod yn gyflogwr cyflog byw neu fynd yn rhydd o blastig ac yn olaf camau y gall sefydliadau'r BGC wneud gyda'i gilydd.

Roedd PK yn hoffi'r tair ardal arfaethedig y gellir ffocysu arnynt gan awgrymu y dylem ffocysu ar osod ein uchelgeisiau ar y lefel cywir. Bu i PK ategu fod yn rhaid i'r uchelgeisiau a'r camau gweithredu fod yn fwy penodol er mwyn gweithredu arnynt yn llwyddiannus yn hytrach na gosod nodau holistaidd mwy eang y gellir eu dadansoddi mewn nifer o wahanol ffyrdd. Esboniodd NMc nad oedd yr uchelgeisiau a gyflwynwyd wedi eu cadarnhau ond yn hytrach wedi eu hawgrymu, gan fod yr asesiadau wedi dod i gasgliadau penodol ac wedi eu cyfeirio fel awgrymiadau cychwynol.

Bu i KE fynegi siom am y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd i'r arolwg, a bod gwaith y tri grŵp sy'n seiliedig ar le wedi ei ffocysu ar ardaloedd penodol o'r Sir.

Bu i NMc ymateb nad yw'r arolwg wedi cau eto a'i fod yn debygol y derbynnir mwy o ymatebion.

Dyweddodd DiD fod y modd cychwynol o weithio y cytunwyd arno er mwyn cyflawni'r Cynllun Llesiant Lleol cyfredol yn cynnwys 6 Grŵp Prosiect thematig a oedd yn gweithredu ar y 6 nod yn y cynllun. Roedd y grwpiau yma'n gweithio'n dda cyn COVID ond wrth i'r amser fynd ymlaen bu i'r Grwpiau Prosiect hynny ei chael hi'n fwy anodd i gydweithio a chyflawni eu hamcanion. Bu i Gadeiryddion y Grwpiau Prosiect ddod ynghyd i drafod y ffordd ymlaen ac awgrymwyd i'r BGC y dylent fod yn gynlluniau peilot sy'n seiliedig ar le fydd yn edrych ar weithio mewn lleoliadau penodol er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i breswylwyr. Mae tri ar waith ar hyn o bryd yn ffocysu ar weithio yn Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth ac yn edrych ar themâu amrywiol gyda'r disgwyliad y bydd y cynlluniau peilot yn sail i arferion da a'u gweithredu ar draws y Sir yn y Cynllun Llesiant Lleol newydd.

Dyweddodd HLL taw hyn oedd dechrau'r broses ond roeddent yn edrych ar ddulliau newydd o weithio rhwng sefydliadau BGC a chymunedau gan edrych ar ymestyn hyn ar draws Ceredigion. Dywedodd HLL fod angen i'r BGC ystyried pa isadeiledd oedd ei angen i weithredu y cynllun newydd er mwyn medru symud ymlaen o'r tri phrosiect cyfredol. Dywedodd HLL ei fod yn bwysig i edrych yn ôl ar yr hyn yr oedd y BGC a'r is-grwpiau wedi eu reoli yn seiliedig ar y gwaith sy'n seiliedig ar le ac edrych ar yr hyn sydd heb gweithio'n iawn er mwyn i ni fedru fod mewn sefyllfa gryfach i weithredu cynllun newydd.

Gofynnodd HLL a oedd yn briodol i awgrymu ffurfio 'grŵp tasg a gorffen drafft' i gefnogi NMc wrth ddrafftio'r cynllun.

**Camau gweithredu: Bu i holl aelodau'r BGC gytuno â'r cynnig o sefydlu grŵp tasg a gorffen ar gyfer drafftio Cynllun Llesiant Lleol ac i NMc gydlynu hyn.**

**30.7 Diweddariad ar Brosiectau sy'n seiliedig ar le y BGC**

**Aberystwyth Carbon Niwtral a Strategaeth Datgarboneiddio**

Bu i DeD ddiweddarau'r BGC ar y datblygiadau o ran y gwaith a wneir yn y prosiect peilot sy'n seiliedig ar le. Cyfeiriodd DeD at y sawl sy'n 'defnyddio gwres' yn Aberystwyth gan glustnodi'r angen i ehangu sgôp y grŵp, trafod sefydliadau allweddol yn Aberystwyth ac o'i amgylch sy'n ceisio cydymffurfio â sero net erbyn 2030. Adroddwyd gan DeD fod gwresogi yn 30% o ollyngiadau carbon y Brifysgol gan hefyd fod yn un o'r elfennau mwyaf anodd mynd i'r afael ag ef a'i leihau.

Mae astudiaeth ddichonoldeb Rhwydwaith Gwres yr Ardal, a ariannwyd gan BEIS yn mynd yn ei flaen; cytunwyd ar y lleoliad ar dir yng nghampws y Brifysgol, Penglais, Aberystwyth ac os cytunwyd, byddwn yn symud at y cyfnod o fasnacheiddio (manylion ar ddylunio a chynllunio). Dywedodd DeD fodd bynnag ei fod yn debygol na fyddai'r gwaith adeiladu wedi ei gwblhau nes 2027.

Bydd y gwaith yma'n parhau gyda'r amcan o gefnogi cymunedau a gwella eu perthynas gyda'r amgylchedd naturiol ac y mae'r dull o weithio sy'n seiliedig ar le yn cymryd i ystyriaeth ymhlith pethau eraill Strategaeth Effeithlonwydd Ynni Llywodraeth Cymru, a'r canllawiau sy'n did i'r amlwg o ran creu Cynlluniau Ynni Lleol.

Mae dyheadau Sero Net gan bartneriaid unigol wedi eu rhannu ac y mae'r grŵp wedi bod yn edrych ar gyfleoedd cydweithio eraill gyda phartneriaid eraill e.e. dewisiadau teithio carbon isel. Dywedodd DeD eu bod yn gofyn i aelodau amrywiol rannu gweithgareddau a phrosiectau y bu iddynt fod yn rhan ohonynt er mwyn ddatgarboneiddio. Cyfeiriodd DeD at ddod â gwaith i ben o ran fferm solar uwchben prif gampws y brifysgol, y dylai fod wedi ei gwblhau yn y 6 wythnos nesaf. Yn ogystal mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn y camau terfynol o brosiect mawr ar blannu coed, gan aros am benderfyniad terfynol oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru i blannu 90,000 o goed ar dir dan berchnogaeth y Brifysgol. Maent yn gobeithio plannu y gaeaf yma.

Yn dilyn hyn cafwyd trafodaeth am y broses tirlfesur ar gyfer Cynllun Plannu Coed Glastir. Bu i DeD ymateb i ymholiadau parthed risgiau ecolegol, ariannol a risgiau tân ac a oeddent yn rhan o'r gwaith tirlfesur.

Bu i BD ofyn am yr ardal a argymhellwyd ar gyfer y coed. A oedd yn dir gwael neu'n dir sy'n addas ar gyfer amaethu a pha garbon caiff ei osod yn erbyn fyddai ar gyfer trafndiaeth na ellir ei leihau. Bu i DeD ymateb fod y broses ymgynghori wedi clustnodi tir ar bwys Talybont sydd â gwerth amaethyddol is.

Bu i HLL ofyn ymhellach am drafodaethau yn y grŵp prosiect o ran trafndiaeth a defnyddio cerbydau trydan a bod angen ystyried y trydydd sector a darpariaeth gwasanaeth. Ymhellach i hyn bu i HLL nodi o ran y fenter plannu coed, bod grwpiau yn Aberystwyth fyddai â diddordeb

yn yr agenda yma ac o bosib yn buddsoddi mewn cynlluniau plannu eu hunain. Yn ogystal mae Ôl carbon a gollyngiadau o neuaddau pentref a chyfleusterau cymunedol ar draws Cymru wedi bod yn fater o drafodaeth parhaus lle bo angen eu cefnogi am na ellir bod sefyllfa lle bo cost gwresogi cyfleusterau mor uchel fel ei fod yn cael effaith ar y cyfleusterau yn parhau ar agor. Dywedodd HLL y bu trafodaethau ar lefel cenedlaethol ac y cânt eu hanfon ymlaen at DeD.

Dywedodd HLL y bydd o bosib o fudd i ystyried sefydliadau a grwpiau cymunedol eraill yn y trafodaethau yma er mwyn sicrhau cydweithio

## **Gweithredu: Ystyried sefydliadau eraill fel rhan o gynllun peilot Aberystwyth**

### **Gwella Llesiant Cymunedol a mynd i'r afael â chaledi yn Aberteifi**

Dywedodd HLL fel cadeirydd y grŵp seiliedig ar le eu bod wedi bod yn edrych ar grantiau, cronfeydd arian yn ogystal ag amrywiaeth o sesiynau gwybodaeth yn Aberteifi. Maent hefyd wedi bod yn edrych ar effeithiolrwydd egni a sefydliadau sy'n rhoi cyngor. Bydd hyn yn feysydd tebyg o waith ar gyfer cymunedau eraill yng Ngheredigion ac o'r herwydd gellir rhannu gwersi defnyddiol. Bydd y wybodaeth yma'n cael ei rhannu gyda threfi eraill yn y Sir.

### **Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan**

Cafwyd diweddariad gan NMc ar ran Gelen James, Cadeirydd grŵp seiliedig ar le. Yn y cyfarfod diwethaf bu i'r grŵp drafod ac argymhell grŵp bwyd a llesiant yn Llanbedr Pont Steffan er mwyn dwyn ynghyd pawb sy'n tyfu bwyd yn Llanbedr Pont Steffan ac elfennau pellach sy'n ymwneud â chynnaladwyedd bwyd. Dywedodd NMC ar ran Elen James fod angen i'r grŵp ffurfio pwynt ffocws a themâu cyffredin er mwyn cynnwys yr holl weithgareddau ac elfennau iechyd meddwl yn ogystal â chlustnodi themâu allweddol a phrosiectau i'r dyfodol ar gyfer Llanbedr Pont Steffan fel tref.

## **30.8 Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant**

Bu i PK gyflwyno Model Cymdeithasol Iechyd a Llesiant Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Nodwyd gan PK pan gytunwyd ar y strategaeth ar gyfer y bwrdd iechyd yn 2018, fe'i seiliwyd ar gam i symud mwy tuag at model cymdeithasol o iechyd a llesiant. Ystyrir bod buddsoddi mewn iechyd yn fuddsoddiad yn y GIG. Er ein bod yn ymwybodol fel bwrdd iechyd ein bod ond yn dylanwadu'n uniongyrchol ar 20% o iechyd a llesiant pobl. Fel Bwrdd Iechyd rydym i fod ffocysu yr un amser ar wella anghysondebau, lleihau anghyfartaledd iechyd ayb ag yr ydym i wella diogelwch cleifion

Rhodddwyd cyfrifoldeb i PK ddiffinio model cymdeithasol ar gyfer iechyd a llesiant mewn cyfuniad â Phrifysgol Aberystwyth gan ymgymryd ag adolygiad o'r deunyddiau oedd ar gael. Nodwyd diffyg yn y wybodaeth oedd ar gael o ran defnyddio'r model i'r Bwrdd Iechyd yn ei gyfarwydd ac y mae'n ymddangos bod diffyg cysondeb a thystiolaeth sicrwydd isel. Mae'r 'Sgyrsiau gyda Phwrpas' yn ffurfio rhan o'r cam 'darganfod' a nodwyd gan PK i Dîm y Bwrdd Iechyd ddadansoddi yn gryf y wybodaeth oedd ar gael gyda'r nod o drosi'r data i 5 thema y bu i PK eu hesbonio:

### **Thema 1: Beth sy'n gweithio ar hyn o bryd?**

Roedd y ffocws yn bennaf oll ar y GIG a'i rôl wrth ddarparu gwasanaeth pan fo argyfwng neu

sefyllfa brys – gan fod yn ddim ar bwynt mynediad a sicrhau budd i'r gymdeithas. Ei brif ased yw ei bobl/ gweithlu. Ystyrir bod ansawdd gofal y GIG yn dda ac y mae pobl yn ymddiried ynndo ac yn edrych yn bositif arno. Bydd sicrhau cysondeb gofal drwy ofal sylfaenol yn bwysig mewn cymunedau. Mae'r polisi a'r tirwedd deddfwriaethol yn symud tuag at model cymdeithasol o iechyd a lles.

### Thema 2: Beth sydd ddim yn gweithio ar hyn o bryd?

Ystyrir bod y system yn or-gymhleth, yn fiwrocraidd, yn araf, yn gweithio mewn seilos â diffyg atebolrwydd. Mae'r strwythurau a'r partneriaethau a roddwyd mewn lle yn adlewyrchu hyn gan hefyd fod yn fiwrocraidd; yn ffurfiol; anhyblyg; yn or-gymhleth a heb weledigaeth. O ganlyniad mae'r system yn gyffredinol yn un sy'n ymateb yn unig i sefyllfaoedd; diffyg integreiddio, cydweithio ac ymgysylltu ac y mae amharodrwydd i rannau asedau gan gynnwys cyllidebau yn sgil diffyg atebolrwydd ar y cyd ac atebolrwydd cyffredinol. Mae ariannu dros gyfnod byr a gweithio mewn seilos yn creu mwy o wasanaethau tameidiog â ffocws tymor byr sy'n ymateb a cheisio adfer yr hyn sy'n eu hwynebu. Mae cysondeb gofal wedi lleihau, ac y mae'r system yn methu â gwerthfawrogi profiad bywyd pobl ac yn sgil hynny mae llai o ymddiried yn y system ac o'r herwydd canlyniadau gwaeth. Er y polisi a'r dirwedd ddeddfwriaethol yng Nghymru mae'r system yn parhau i fethu â chyflawni graddfa'r her.

### Thema 3: Beth fyddai system newydd yn edrych fel a beth fyddai'n cynnwys?

Mae'n cynnwys dwy is-thema bwysig. Yn gyntaf y syniad bod pawb yn haeddu yr 'un cyfle' - yr egwyddor o gyfiawnder a hefyd gostwng anghydraddoldeb. Yn ail, y syniad y dylai'r system newydd ffocysu ar y 'person cyfan' a'r 'boblogaeth gyfan' gan ystyried elfennau pellach o ran iechyd. I wneud hyn bydd angen edrych ar y system yn gyfan. Dylai geisio cyflawni ar fwy na 'absenoldeb afiechyd' a chynnwys elfennau o well iechyd gan gymryd agwedd ataliol tuag at iechyd. Dylai fod yn seiliedig ar ymgysylltu synhwyrol, sicrhau bod unigolion yn cymryd ran a bod y system yn atebol i'r unigolion mae'n ei wasanaethu.

### Thema 4: Beth sydd angen ei wneud er mwyn cyflawni newid i model newid?

Bydd angen bod yn uchelgeisiol i gyflawni newid, ond mae'r amser yn iawn i wneud hyn wrth i symud ymlaen o Covid-19 ac alinio â'r Cynlluniau Llesiant caiff eu datblygu ar hyn o bryd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd yr her i gyflawni newid yn ymwneud ag edrych ar y tensiwn rhwng bod yn uchelgeisiol a'r galwadau a roddir ar y system wrth reoli yr hyn mae'n wynebu ar hyn o bryd. Mae cytundeb cyffredinol iawn taw gweithio gyda'i gilydd a phartneriaethau yw'r ffordd cywir i fwrw ymlaen fodd bynnag bydd angen eu gwella a'u hystemyn y tu hwnt i'r sefydliadau/ modelau traddodiadol. Bydd cynnwys cymunedau i greu hyn ar y cyd yn allweddol i'r model newydd a dylai gynnwys symudiad tuag at ailddosbarthu pŵer ac adnoddau tuag atynt. Cytunwyd yn gryf â newid yn y dull ariannu er mwyn sicrhau'r newid yma yn ogystal â'i gwneud hi'n haws i rannu asedau ac adnoddau ar draws y system.

### Thema 5: Ble fyddai orau i ddechrau?

Roedd tipyn llai o ddata ar gael o dan y thema yma. Mae'n bosib fod hyn yn cyfleu er nad yw darnau o'r model cymdeithasol ar gyfer iechyd yn newydd i'r rhai sy'n rhan o'r sgysiau yma, mae'r terminoleg a'r syniad fel hanfon yn ei hun yn llai cyfarwydd ac heb ddiffiniad da. O ran cychwyn ar bethau mynegwyd barn ar sawl agwedd yn unol â'r sylwadau canlynol: bod angen i ni gael 'camau cyflym ymlaen', 'targedu yr hyn sy'n haws i'w wneud' ac edrych ar 'y tymor hir'. Roedd

cyngor cyson i ddechrau'n fach; mae angen iddo gael ei wneud 'mewn darnau bach'; 'cadwch y gwaith yn dynn ar y cychwyn'; a 'dewiswch rhai pethau da sy'n gyffredin i fusnes dyddiol partneriaid'; 'angen i'r hud weithio'n lleol'. Bu i nifer o'r rheiny wnaeth ymateb sôn am enghreifftiau o arferion addawol – sefydliadau, prosiectau a lleoliadau penodol yn ogystal ag astudiaethau achos y bu iddynt eu hystyried yn llwyddiannus wrth sbarduno newid a all hefyd roi syniad i ni lle byddai orau i ddechrau. Bu i'r rhain cael eu llunio gan Swyddfa Ymgysylltu a Rhaglen Trawsnewid HDUHB.

Nodwyd gan PK felly bo amcan wedi dod i'r amlwg:

“Erbyn Rhagfyr 2022 dylid datblygu cynnig ar gyfer gweithredu yn seiliedig ar le mewn o leiaf un cymuned ym mhob sir gan weithio gyda phartneriaid lleol allweddol a derbyn cefnogaeth oddi wrth WCVA fydd yn cynnwys cam cychwynol o ddatblygu arweinwyr cymunedol. Bydd hyn yn cynnwys mapio asedau a chlustnodi meysydd o flaenoriaeth y bydd yn cael yr effaith mwyaf tebygol a chyflym ar iechyd a llesiant y gymuned a thrwy hynny bydd y gymuned yn teimlo perchnogaeth ohono. Fel rhan o'r gwaith yma, bydd angen clustnodi ffynonellau o arian a mecanwaith ariannu sy'n hwyluso perchnogaeth cymunedol am o leiaf 3 blynedd.”

O ganlyniad y nod fydd diffinio proses fydd wedi ei lunio ar cyd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn:

1. Clustnodi cymunedau er mwyn gweithredu yn seiliedig ar le.
2. Clustnodi arweinwyr cymunedol anweladwy, gan gynnwys arweinwyr cymunedol o grwpiau nad ydynt o reidrwydd yn adnabyddus i bawb.
3. Clustnodi cyfleoedd i ddatblygu / cefnogi arweinwyr cymunedol.
4. Dadansoddi a mapio asedau cymunedol.
5. Ymgysylltu â chymunedau ac arweinwyr er mwyn clustnodi meysydd blaenoriaeth o ran gweithgareddau.
6. Clustnodi ffynonellau arian / mecanweithiau ariannu sy'n hwyluso a chynnal perchnogaeth cymunedol.

Diolchodd BD i PK am ei gyflwyniad.

**Camau gweithredu:** Bydd angen i bartneriaid weithio gyda'i gilydd er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd gwaith yma. Elfen bwysig fydd ystyried iechyd economi a chaledi.

Bu i BD gyfleu y byddai cynnal y prosiectau yma hefyd yn dra phwysig pan fyddant wedi eu rhoi mewn lle.

## 30.9 Unrhyw fater arall

Bu i HLL dalu teyrnged i Ros Jervis a fu farw'n ddiweddar. Roedd yn ysbrydoliaeth i ni gyd fel partneriaid. Dywedodd HLL hefyd ei fod yn dda i nodi y caiff nifer o'i syniadau eu hadlewyrchu yn ein Cynllun Llesiant Lleol nesaf.

Nodwyd gan NMc yr hoffai'r Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol gyfarfod â chadeiryddion holl Fyrddau Gwasanaethau Lleol yng Nghymru ar yr 28ain o Fedi. Dywedodd NMc nad oes unrhyw wybodaeth ychwanegol wedi ei ddarparu hyd yma oni bai cais yn gofyn i Gadeirydd y BGC i nodi'r dyddiad yn ei ddyddiadur.

## Tudalen 80

Adroddwyd hefyd gan NMc fod y cyfnod ymgynghori 14-wythnos ar yr Amcanion Llesiant yn y Cynllun Llesiant Leol nesaf wedi dechrau gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac y mae'r cyfarfod cychwynnol i drafod datblygiadau wedi ei drefnu ar gyfer y 13eg o Orffennaf 2022.

Yn ogystal, bu i Gomisiynydd Cenedlaethau Dyfodol, Sophie Howe, ddewis a gofyn i gyfarfod â 4 BGC yng Nghymru er mwyn trafod Adolygiad Adran 20 (adolygiad o rôl arweiniol Llywodraeth Cymru) o ran Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Ceredigion wedi ei newid i fod yn un o'r ardaloedd hynny yn seiliedig ar y profiad a ddangoswyd wrth gwblhau Aseiad Llesiant Lleol 2022.

<b>30.10</b>	<b>Dyddiad y cyfarfod nesaf</b>
--------------	---------------------------------

20 Medi 2022	
--------------	--

I'w gadarnhau

Rhagfyr 2022

Chwefror /Mawrth 2023



**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

<b>ADRODDIAD I'R:</b>	<b>Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>26 Medi 2022</b>
<b>LLEOLIAD:</b>	<b>Cynhaliwyd o bell drwy gynhadledd fideo</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)</b>

**PWRPAS YR ADRODDIAD: Gwybodaeth**

**Y RHESWM Y MAE**

**CRAFFU WEDI GOFYN AM Er mwyn cynnal ei adolygiad 6 misol o ddefnydd y Cyngor  
Y WYBODAETH: o RIPA**

**CEFNDIR:**

Daethpwyd ag adroddiad gerbron y Pwyllgor ddiwethaf ar 15<sup>fed</sup> Medi 2021 (gweler adroddiad 15<sup>fed</sup> Medi 2021 ar:

<https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=143&MId=196&Ver=4&LLL=0>

**Monitro gan Aelodau**

Mae'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn gyfrifol am adolygu defnydd y Cyngor o RIPA.

Fel rheol, cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu bob 6 mis; fodd bynnag, cyflwynir yr adroddiad hwn 12 mis ar ôl yr un blaenorol oherwydd diffyg gweithgarwch RIPA.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:****1) Gweithgarwch RIPA**

Ni fu gweithgarwch RIPA gan unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor rhwng 13<sup>eg</sup> Awst 2021 a 4<sup>ydd</sup> Gorffennaf 2022. Mae Swyddogion Awdurdodi wedi cadarnhau nad ydynt wedi ystyried unrhyw geisiadau RIPA yn ystod y cyfnod hwn.

**2) Hyfforddiant**

Ar 28<sup>ain</sup> Chwefror 2022, cyflwynwyd hyfforddiant hanner niwrnod gan ddarparwr allanol i swyddogion perthnasol ar RIPA. Cwmpasodd y gweithdy yr agweddau a ganlyn:

- Trosolwg o RIPA a pherthynas â Hawliau Dynol - Erthygl 8
- Diffinio 'gwybodaeth breifat'

- Diffiniadau o Wylidwriaeth Gyfeiriedig, Gwylidwriaeth Ymwthiol a Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol
- Gwylidwriaeth a reoleiddir gan RIPA ac nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA - Trosolwg o weithgarwch y mae angen awdurdodiad ar ei gyfer
- Effaith ar weithgarwch a rôl y gweithle
- Perthnasedd RIPA i swyddogaethau'r rhai sy'n bresennol
- Rheidrwydd, Cymesuredd ac Ymyrraeth Gyfochrog
- Canllawiau'n ymwneud â ffurflenni a chofnodion prosesu
- Trosolwg o rolau a chyfrifoldebau
- RIPA a'r cyfryngau cymdeithasol - pryd mae'n gymwys a phryd nad yw'n gymwys
- Trosolwg o weithdrefnau a gweithgarwch ffynonellau cuddwybodaeth dynol (CHIS)
- Adolygiad o'r cynllun gweithredu
- Canlyniadau peidio â chydymffurfio

Dylai'r hyfforddiant hwn a sesiynau blaenorol wneud yn siŵr bod gan Swyddogion perthnasol y wybodaeth angenrheidiol i gydymffurfio â gofynion RIPA.

Mae Cyngor Abertawe wedi ymestyn y cynnig i Swyddogion Ceredigion fod yn bresennol mewn sesiwn hyfforddiant y mae'n ei threfnu ar 30<sup>ain</sup> Medi. Swyddogion a all elwa o hyfforddiant RIPA ac na chawsant gyfle i fod yn bresennol cyn hyn fydd yn bresennol yn y sesiwn hyfforddiant hon.

### 3) Diweddariad i Staff

Ar 3<sup>ydd</sup> Rhagfyr 2021, cyhoeddwyd Diweddariad RIPA i holl staff y Cyngor gan yr Uwch Swyddog Cyfrifol ar Newyddion Cerinet. Roedd hwn yn hysbysu'r staff bod Polisi Corfforaethol a Dogfen Weithdrefnau Gwylidwriaeth Gyfeiriedig, Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol a Data Cyfathrebu Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) RHAN II y Cyngor wedi'u diweddarau. Roedd y diweddariad hwn hefyd yn gwneud y staff yn ymwybodol o Bolisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA newydd y Cyngor. Cymeradwywyd y ddau newid hwn gan y Cyngor yn y cyfarfod a gynhaliwyd 23<sup>ain</sup> Medi 2021.

Roedd y diweddariad hwn hefyd yn rhoi trosolwg i staff o ffurflenni a chanllawiau RIPA a oedd ar gael ar Cerinet.

Bwriedir i'r negeseuon 6 misol gael eu cylchredeg drwy Cerinet er mwyn gwneud yn siŵr bod staff newydd yn eu gweld i godi ymwybyddiaeth ynghylch yr angen i ystyried RIPA.

### 4) Arolygiad IPCO 2022

Derbyniwyd llythyr o Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) ar 17/8/22 yn datgan bod y Cyngor i fod cael ei arolygiad nesaf yn y rhaglen, ar y defnydd o wylidwriaeth gudd a ffynonellau cuddwybodaeth dynol, yn unol â darpariaethau Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (**Atodiad 1**). Gofynnodd yr arolygydd ar i gyfarfod gael ei drefnu gyda'r Uwch Swyddog Cyfrifol i drafod y fethodoleg fwyaf priodol ar gyfer yr arolygiad hwn. Cynhaliwyd y cyfarfod ar 23/8/22. Ymatebwyd i geisiadau am wybodaeth ynghylch defnydd y Cyngor o

RIPA, ei bolisiâu a'i weithdrefnau yn y cyfarfod hwn a phenderfynodd yr arolygydd na fyddai arolygiad llawn yn angenrheidiol.

Trefnwyd cyfarfod dilynol ar 30/08/22 gyda'r Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu, yr Uwch Swyddog Cyfrifol a chynrychiolydd RIPA lle rhoddwyd atebion i weddill cwestiynau'r arolygydd.

Bydd adroddiad yr IPCO yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

## 5) Sicrwydd Data ac Atodlen Cadw Data

Ym mis Ebrill 2020, derbyniwyd llythyr o Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) yn ymwneud â sicrwydd ymdrin â data a threfniadau diogelu wrth ei gadw (**Atodiad 2**). Derbyniwyd copi arall o'r llythyr hwn ym mis Awst 2022. Roedd yr Arolygwyr wedi nodi bod nifer o sefydliadau yn cadw data yn hirach nag sydd raid neu'n briodol.

Mewn ymateb i'r llythyr hwn, lluniwyd Atodlen Cadw Corfforaethol ac fe'i cyhoeddwyd ar Cerinet ar 20<sup>fed</sup> Mehefin 2022. Dosbarthwyd y ddogfen hon i bob Swyddog Awdurdodi a Swyddogion Dynodedig er sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae'r cynnydd o ran y 6 phwynt perthnasol a nodir yn y llythyr fel a ganlyn:

1. Adolygu goblygiadau trefniadau diogelu yn y Cod Ymarfer perthnasol ar gyfer unrhyw bŵer a ddefnyddir gan eich Awdurdod.
  - Adolygwyd polisi RIPA a chyflwynwyd diwygiadau i'r Cyngor ym mis Mawrth 2020 i gyfrif am godau diwygiedig y Swyddfa Gartref mewn perthynas â Gwylidwriaeth Gudd a ffynonellau cuddwybodaeth dynol, a gyhoeddwyd yn 2018.
2. Gwneud yn siŵr bod polisiâu trefniadau diogelu mewnol ar gyfer cadw, adolygu a gwaredu unrhyw ddata perthnasol yn gywir a chyfredol.
  - Cynhaliwyd adolygiad o Bolisi Corfforaethol a Dogfen Weithdrefnau RIPA (Polisi RIPA) a chyflwynwyd diwygiadau arfaethedig i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 20/01/2021 a 15/09/2021. Yn ogystal â hyn, cyflwynwyd Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA newydd y Cyngor, a luniwyd mewn ymateb i argymhellion yn dilyn yr arolygiad blaenorol yn 2019, i'r pwyllgor hwn ar y dyddiadau hyn. Cafodd Polisi diwygiedig RIPA a Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 23/09/2021.
  - Cyhoeddwyd yr Atodlen Cadw Corfforaethol newydd ar Cerinet, 20<sup>fed</sup> Mehefin 2022.
3. Gwneud yn siŵr bod gan y swyddog awdurdodi ar gyfer eich awdurdod ddealltwriaeth lawn o unrhyw lwybrau data a ddefnyddir ar gyfer data RIPA neu IPA.
  - Mae cydlynnydd RIPA wedi gwirio gyda'r Swyddogion Awdurdodi i gadarnhau bod ganddynt ddealltwriaeth o'r fath a bydd yn rhoi arweiniad lle'n briodol. Bydd ymatebion sy'n aros, felly, yn cael eu hadrodd i'r pwyllgor yn y diweddariad nesaf.
4. Gwneud yn siŵr bod y data a gafwyd dan IPA a RIPA wedi'i labelu'n glir a'i storio ar lwybr data ag iddo bolisi cadw hysbys.
  - Dim data RIPA neu IPA wedi'i gadw.
  - Mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud yn siŵr bod y systemau sydd yn eu lle yn ddigonol i storio data IPA a RIPA.
  - Mae'r Polisi Cadw Corfforaethol newydd yn gwneud yn siŵr bod cyfnodau cadw llwybrau data sy'n cynnwys data o'r fath yn hysbys.
5. Adolygu geiriad trefniadau diogelu mewn unrhyw gymhwysiad i gael data dan IPA a RIPA a gwneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu'n gywir brosesau cadw a gwaredu eich awdurdod.

- Mae ffurflenni cais wedi'u diweddarau ac yn cynnwys gofyniad bod Swyddogion Awdurdodi yn ystyried pa mor hir ddylai data gael ei storio ac i gyfeirio at yr Atodlen Cadw Corfforaethol.
6. Adolygu a yw data a gafwyd dan awdurdodiadau eraill yn cael ei gadw yn hirach nag sydd raid a, lle'n briodol, ystyried gwaredu data a gedwir.
- Mae'r holl ddata o awdurdodiadau blaenorol wedi'i ddiystro.

